# CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071

Rhifyn 304 - 60c
Mehefin 2012

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg


**Stephen Jones yn yr Ysgol Gyfun**



Tudalen 15

**Cyffro Rali Ffermwyr Ieuainc**



Tudalen 24

**Poster Taith y Fflam Olympaidd**



Tudalen 12-13

# Dathlu 25ain Ras Hwyl





Agorwyd y dydd gan Rob Thomas a'i fechgyn Llyr a Rhodri.



Sian Roberts Jones, Cwmann yn ennill Ras Hwyl i Ferched (Agored) a gynhaliwyd yn Ysgol Cwrtnewydd ar ddiwrnod Mai Calan. Daeth rhedwyr o bell yn agos i gystadlu.

Bu Ysgol Gynradd Cwrtnewydd yn dathlu pum mlynedd ar hugain eleni ers cynnal y ' Ras Hwyl' gyntaf yn 1987. Cyflwynwyd rhodd o lun wedi ei gomisiynu gan yr arlunydd Rhiannon Roberts i drefnwyr y ras dros y pum mlynedd ar hugain, sef Mr a Mrs L Rees, Tanrhos, Cwrtnewydd. Cyflwynwyd print o'r un llun i dri rhedwr a oedd wedi cwblhau pob ras ers ei sefydlu yn 1987 sef, Mr Eirian Davies, Mr Eric Rees a Mr Dorian Rees. Hefyd cyflwynwyd print o waith Rhiannon Roberts i Mrs Wendy Davies, Caerwenog am ei gwaith diflino o drefnu'r 'Diwrnod Hwyl' dros y blynyddoedd. Mrs Ann Davies, Cadeirydd 'Pwyllgor Rhieni ac Athrawon' bu'n eu cyflwyno. Yn y llun hefyd mae Cerys Pollock ac Owain Jones sef y ferch a'r bachgen buddugol o'r Ysgol â'u tariannau.

# Codi arian wrth godi canu



Yn dilyn cyngerdd llwyddiannus gan Gôr Cwman yn Neuadd Brofana, Ffarmers, codwyd y swm o £1612. Mewn cyfarfod diweddar o'r côr cyflwynodd Arthur Roderick, Cadeirydd y côr, hanner yr arian i Aneurin Davies, Cadeirydd Cangen Llambed a Llanybydder a'r dalgylch o gangen Ymchwil Cancr Prydeinig ac fe gyflwynodd Cyril Davies, is-gadeirydd y côr, siec i Ros Jones ar ran Ambiwlans Awyr Cymru.


# Llwyddiant mewn Eisteddfodau



Côr a Pharti Unsain Ysgol Carreg Hirfaen a fu'n fuddugol yn Eisteddfod Teulu James Pantyfedwen, Pontrhydfendigaid yn ddiweddar (Llun gan Avrid Parry Jones).







Ffion a Sioned o Lanybydder gyda'r gwobrau a enillwyd yn Eisteddfod Llandudoch.


CYFRi

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm.**

Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS
Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn ailfeddiannu am eich cartref.




Catrin Jones, Talar Wen, Cwmsychpant yn ennill Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod Rhydlewis 2012 am ysgrifennu stori fer. Da iawn ti.


Gorsaf Brawf MOT

**GAREJ BRONDEIFI**

Heol Llanfair Road, Llambed, SA48 8JX

* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
* Teiars am brisiau cystadleuol
*Ceir newydd ac ail law ar werth
* Batris * Brecs * Egsost
*Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305




Llion Rhys Thomas, Gilfachwen, Llambed, sydd yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Llambed, wedi ei lwyddiant yn ennill Tlws y Llenor Ifanc yn Eisteddfod Maenclochog yn ddiweddar.

# Pwy yw pwy?

**Golygydd:**

| | | |
|---|---|---|
| Mehefin | Rhian Lloyd, Awel y Môr, Ffosyffin | 01545 571234 |
| Gorffennaf | Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach | 481855 |
| e-bost: | golygydd@clonc.co.uk | |
| Tîm Golygyddol: | Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd, Marian Morgan a Delyth Phillips | |
| Dylunydd y mis: | Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann | 422349 |
| Swyddog Dosbarthu | Eifion Davies, Afallon, Drefach | 480590 |
| e-bost: | bedwyr@btopenworld.com | |
| Teipyddion | Nia Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| | Joy Lake, Llambed | |

**Gohebwyr Lleol:**

| | | |
|---|---|---|
| Cellan | Alwen Edwards, Awel Teifi | 421001 |
| Cwmann | Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen | 422922 |
| Cwmsychbant | Mary Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| Llanwenog/Drefach | Mary Davies neu Eifion Davies | |
| Ffaldybrenin/Ffarmers | Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers | 01558 650507 |
| Gorsgoch | Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod | 434238 |
| Llambed | Janet Evans, Haulfryn | 422856 |
| Llanfair | Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn | 493407 |
| Llangybi a Betws | Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon | 493325 |
| Llanllwni | Dewi Davies, Glanafon | 480218 |
| Llanwnnen | Elin Thomas, 1 Teras Sycamor | 480239 |
| Llanybydder | Menna Jones, Ceginau Lifestyle | 480257 |
| Pencarreg | Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf | 422270 |

# Beth yw beth?

**Bwrdd Busnes:**

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann | 422349 |
| e-bost: | cadeirydd@clonc.co.uk | |
| Is-Gadeirydd | Marian Morgan, Glasfan, Drefach | 480490 |
| Ysgrifenyddes | Mary Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| Trysorydd | Nia Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| e-bost: | ysgrifennydd@clonc.co.uk | |
| Ceidwad y Camera | Janet Evans, Haulfryn, Llambed | 422856 |
| Ffotograffydd | Tim Jones, Llainwen, Llambed | 422644 |
| Argraffwyr | Gwasg Aeron, Aberaeron | 01545 570573 |

Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhaodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.

- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu llun plant i'w gynwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: **www.clonc.co.uk** os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddod yn ffrind i Clonc ar wefan gymdeithasol facebook: **www.facebook.com/clonc**
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

# Siprys

**Rhoi ar un llaw!**

Mae moduron heddiw yn gwneud tipyn o filltiroedd i'r galwyn, ond nid yw'r llywodraeth yn gweld hyn yn dda am eu bod yn colli'r incwm sylweddol sy'n dod o werthiant olew. Beth yw'r ateb – codi trethi meddai'r papur heddiw. Mae'n wirionedd oesol – rhoi ar un llaw a dwyn ar y llall.

**Dweud y tywydd!**

Mae na welliant mawr yng nghywirdeb darogan y tywydd. Fe all y tywydd newid o fewn milltir o gartre, ond mae'n go agos ati y dyddiau yma. Pam, serch hynny fod rhaid cael dau adroddiad tywydd, un ar ôl y llall ar y teledu? Ydy mae un yn fwy lleol ac yn canolbwyntio ar Gymru a'r llall yn fwy ar Brydain gyfan. Dyna fe, rhaid bod yn ddiolchgar, mae'n cadw pobol mewn gwaith.

**Iechyd a Diogelwch.**

Mae rhai o benderfyniadau y rhain yn peri gofid. Yn y papur heddiw mae perchnogion parc adloniant yn Sir Benfro yn cael eu herlyn am fod mam a'i phlentyn wedi cael niwed wrth i gangen coeden gwympo arnynt mewn storm o wynt! Mae hyn yn gwneud i unrhywun fod yn agored i'w erlyn os y caiff ddamwain gyffelyb. Sut medr neb sicrhau fod coed yn hollol ddiogel mewn stormydd geirwon? Fedra i ddim gweld y medr yr un bod dynol rhagweld damweiniau fel hyn. Mae "Iechyd a Diogelwch" yn gwybod yn well. Ond efallai nad ydym ninnau sy'n beirniadu yn gwybod y cyfan chwaith.

**Anifail Talentog.**

Yr ydym yn ymwybodol erioed fod anifeiliaid yn glyfar. Does dim eisiau edrych ymhellach na'r cŵn defaid sy'n gweithio mor dda ar ffermydd yr ardal. Ond roedd gwylio'r ci a'i gydymaith ar raglen 'dalent' yn ddiweddar wedi ennill edmygedd miloedd o wylwyr y teledu. Tybed faint o blant oedd wedi cydio yn y ffôn i bleidleisio. Iddynt hwy, rwy'n siwr nad oedd gobaith gan unrhyw gystadleuydd arall. Beth bynnag fe fydd ymddangosiad y cystadleuwyr eraill ar y teledu yn sicr o ddod a chydnabyddiaeth iddynt. Cofiwch os oes gennych anifail anwes sy'n medru perfformio, beth amdani? Efallai y gwelwn ni gystadleuaeth yn Eisteddfod yr Urdd. Na dw'i ddim yn credu.

**Daw'r e-bost a gwên.**

Cyfaill i mi wedi danfon nifer o jôcs. Gwrthrych y rhain yw'n cymdogion dros fôr yr Iwerydd. Druan a nhw maent yn destun tynnu coes di ben draw. Yn aml maent yn amhosibl eu cyfiethu.

Un yn sibrwd wrth ei ffrind "Wyt ti am enillydd y 'Derby?"

"Nagw" oedd ei ateb, "mae ngardd i'n rhy fach."

Un arall yn dweud wrth ei ffrind fod Nadolig ar ddydd Gwener y flwyddyn honno. Ei ffrind yn ateb " gobeithio mae dim Gwener y trydydd ar ddeg fydd hi".

Pob hwyl, i ieuenctud yr ardal yn eu haroliadau ac yn Eisteddfod yr Urdd.


*Cloncyn*

# Y Ffenest

gan Gerald Morgan



Wele gân am Leigh Halfpenny, cefnwr Cymru - DAI DIME. Y cord newydd ar gyfer hon yw E7. Cyflwyna fy nghân i Phil Evans (Phil Ffriwt) Clwb Rygbi Llanbed, gan fod Leigh yn un o'i deulu. Mwynhewch.




Rhedwr syth ar ysgafn droed,
Arwr cyfnerth am ei oed,
'Cefnwr dewra fu erioed,
Dai Dime. (2x)

Taclo hwn mor anodd sydd
I'w elynion roi i'r pridd,
Rhed y winci fel yr hydd,
Dai Dime. (2x)

Bach ei daldra, ond mewn gwres
Ffrwydra pan ddaw'r Sais yn nes,
Lloria hwnnw'n eithaf plês,
Dai Dime. (2x)




Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.

Cydnabyddir cefnogaeth
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk

**MEHEFIN**

16 - Diwrnod Hwyl gyda Sali Mali, Sam Tan a Gwenda Owen yng Nghaeau Glanafon, Llanllwni o 11.30 hyd 4yh (mwy o fanylion yn adran Llanllwni o'r Clonc).

17 - Cyfarfod Blynyddol Capel Nonni, Llanllwni am 2y.p. Parch Guto Prys ap Gwynfor. Croeso cynnes i bawb.

17 - Tri Tenor - Alun Rhys-Jenkins, Aled Hall a Rhys Meirion yn Neuadd y Celfyddydau, Y Drindod Dewi Sant Llambed.

20 - Trip blynyddol Pwyllgor Lles Llanwnnen i Sain Ffagan.[ Os bydd y tywydd yn anffafriol byddwn yn mynd i Mc Arthur Glen]. Bydd y bws yn gadael Llambed am 8:15y.b. a Llanwnnen am 8:30y.b. Enwau i Haydn Richards 480279, Gwen Davies, 481152 neu Ann Hughes 422654. Croeso cynnes i bawb.

22 - Cyngerdd gan 'Lleisiau Bro Eirwyn' yng nghwmni 'Bois y Gilfach' a John Evans fel arweinydd yng Ngwesty'r Porth, Llandysul am 7:30y.h. Elw tuag at Uned Cancr y Fron, Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli. Pris tocyn £5 gan gynnwys caws a gwin! Tocynnau ar gael gan Nia 480015.

24 - 30 Wythnos Carnifal Llanybydder.

29 - Rasys Sarn Helen yn Ysgol Felinfach.

30 - Clwb Hoci Llanybydder yn cynnal Taith Cerdded/dribble Noddedig, i ddilyn gyda BBQ a N$oson Rasus Llygoedyng Nghlwb Rygbi Llambed 6 o'gloch ymlaen. Am fwy o fanylion cysylltwch a Beca ar 07967 956 394.

30 - Diwrnod Hwyl Ysgol Gynradd Llanwenog.

30 - Cinio Dathlu C.Ff.I. Ceredigion yn 70 oed ym Mhafiliwn Bont, Pontrhydfendigaid.

**GORFFENNAF**

14 - Mabolgampau Pentref Cwrtnewydd ar gaeau Ysgol Cwrtnewydd.

**AWST**

10 - Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan.

11 - Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.

18 - Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog.

25 - 27 Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen yn Ysgol Gyfun Llambed.

26 - Barbiciw yn Nhafarn Fishers, Cellan am 2.00y.p. Elw tuag at Glefyd y Siwgr. Dewch yn llu.

27 - Sioe a Threialon Cŵn Defaid C.Ff.I. Llanllwni ar gaeau Abercwm, Llanllwni.

**MEDI**

8 - Ffair Ram ar gaeau pentref Cwmann.

**HYDREF**

12 - Eisteddfod Ddwl gyda Phapurau Bro Ceredigion yn Neuadd Goffa Felinfach.



Cegin *Gareth*
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313
*Blodau*
*Cacennau*
*Dathliadau*
*Partion*

Cymdeithas Alzheimer's Arwain yr ymgyrch yn erbyn dementia

Does yr un ohonom yn gallu gwneud popeth, ond gall pawb wneud rhywbeth

**Mae angen gwirfoddolwyr arnom i helpu gyda'r gwasanaethau lleol. Gwirfoddolwyr i sefydlu grwp codi arian, ymgyfeillio, a gan fod llawer o wahanol gyfleoedd gwirfoddoli mae yna rhywbeth i bawb**

Mae 40,700 o bobl â dementia yng Nghymru ac mae'r figwr hwn yn debygol o gynyddu i 43,500 erbyn 2013

**Cysylltwch â Gill Morgan – Swyddog Gwirfoddoli ar 01269 845953 / 07715 802632 neu e-bostio : gillian.morgan@alzheimers.org.uk**

Elusen gofrestredig rhif 296645

**PLANHIGFA GRANNELL NURSERY**

Capel y Groes,
Llanwnnen
SA48 7LE
01570 434548
www.grannell-nursery.co.uk

**Planhigion llysiau, lluosflwydd, blodau'r haf a'r gaeaf, perlysiau, coed ffrwythau a mwy!**

Dydd Llun i Ddydd Sadwrn
10yb ~ 5yp
Dydd Sul 10yb ~ 4yp


# O'r Cynulliad

gan Elin Jones

Ers fy ngholofn ddiwethaf, rydym wedi gweld newid yng nghyfansoddiad gwleidyddol arweinyddiaeth y Cyngor Sir yma yng Ngheredigion. Wedi'r etholiadau a gynhaliwyd ar 03 Mai, mae Plaid Cymru wedi ffurfio clymblaid gyda'r grŵp o gynghorwyr annibynnol a'r grŵp 'Llais Annibynnol', ac felly ffurfio Cabinet newydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r tri grŵp gwleidyddol. Dyma'r tro cyntaf i ni gael aelodau o Blaid Cymru yng Nghabinet y Cyngor Sir, a'r tro cyntaf i ni weld y Blaid yn arwain ar y Cyngor Sir. Hoffwn felly longyfarch y Cyng Ellen ap Gwynn a'i chyd-gynghorwyr o grŵp y Blaid ar y datblygiad hwn ac rwy'n edrych ymlaen at barhau i gydweithio gyda'r Cynghorwyr Sir – hen a newydd – beth bynnag eu lliwiau gwleidyddol.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rwyf wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau ar hyd a lled yr etholaeth. Fe fynychais ddigwyddiad arbennig a gynhaliwyd yn Aberystwyth gan Lywodraeth Cymru i nodi cwblhau'r llwybr sy'n rhedeg ar hyd yr arfordir yng Nghymru. Roeddwn hefyd yn bresennol wrth i'r Gweinidog Addysg agor adeilad newydd sefydliad IBERS, Prifysgol Aberystwyth, yng Ngogerddan.

Yn ôl fy arfer, fe fynychais Eisteddfod Teulu James Pantyfedwen ym Mhontrhydfendigaid ar benwythnos Calan Mai, a gwnes fwynhau safon y cystadlu'n fawr. Hoffwn longyfarch cystadleuwyr lleol ar eu llwyddiannau, a gobeithiaf y byddant hefyd yn cystadlu yng Ngŵyl Fawr Aberteifi ac Eisteddfod Pantyfedwen, Llanbedr Pont Steffan.

Yn Llambed, fe fynychais y dathliadau i nodi pen-blwydd cartref Hafan Deg yn 50 oed yn ddiweddar. Roedd hi'n dda gweld cymaint o wynebau cyfarwydd wedi dod ynghyd i nodi'r digwyddiad, ac roeddwn yn falch i gael cwrdd â rhai o drigolion presennol y cartref. Rwy'n gwybod eu bod hwythau, fel yr wyf i a thrigolion y dref, yn ddiolchgar iawn am y gwasanaeth mae'r cartref a'r staff ymroddedig yn ei ddarparu i henoed yr ardal.

Yn olaf, roeddwn yn bresennol yn ail-agoriad swyddogol Neuadd Goffa Tregaron. Rwy'n ymwybodol iawn o'r gwelliannau a'r buddsoddi i wella'r neuadd a'r cyfleusterau yno dros y misoedd diwethaf, ac rwy'n gobeithio y bydd trigolion Tregaron yn falch iawn gyda'r neuadd ar ei newydd gwedd.


**Alec Page Gof**

Gwaith metal o safon i'r tŷ a'r ardd.
*Dewch i drafod eich syniadau.*
Yr Efail, Barley Mow, Llambed.
**01570 423955**

**COMPASS OFFICE SUPPLIES**

Am eich holl ddeunydd swyddfa
Uned 12 Stâd Ddiwydiannol Llambed, Heol Tregaron, Llambed.
☎ 01570 422955
01570 422232

**T. Emyr Jones Adeiladwr**

Araul, Cwmann
01570 423921
07867 945174

CANOLFAN ADDURNO
**AA A**
Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.
Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allweddi a pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.
*Arbenigedd ar garreg eich drws.*
**3 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan 01570 423156**

**Cludfwyd Indiaidd**
*NEHAR*

Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.
**15% o ostyngiad ar archebion dros £10.00.**
Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.
**10 Stryd y Bont, Llambed**
**☎ 01570 422893 / 422175**

# Sarn Helen

Ras y Barcud Coch ym Mwlch Nant yr Arian a Glyn Price yn gorffen yn 9fed mewn awr 20 munud 44 eiliad, ac ail vet 45, 12 - Michael Davies awr 21 munud 47 eiliad, ac ail vet 40, 18 Daniel Hooper awr 23 munud 54 eiliad, 29 Chris Schroder awr 28 munud 58 eiliad, 54 Huw Price awr 38 munud 10 eiliad, 57 Kevin Hughes awr 39 munud 16 eiliad, 73 Caryl Davies awr 43 munud 57 eiliad, 74 Sian Roberts-Jones awr 44 munud 11 eiliad, 85 Aneurin James awr 47 munud 50 eiliad, 100 Gareth Jones awr 56 munud, 31 eiliad.

Caitlin Page yn ennill y ras merched dan 15 gyda Ffion Quan yn drydydd.

Enillodd Glyn Price y fedal aur, Huw Price efydd yn y category 45, a Caitlin Page medal Aur a Ffion Quan efydd yn y bencampwriaeth ras llwybr Cymru.

Y diwrnod canlynol roedd ras y diafol ym Mhontarfynach, a Dylan Lewis yn ennill y ras mewn dwy awr 03 munud 26 eiliad ân yn derbyn par o esgidiau Solomon fel gwobr, hefyd Ormond Williams yn gorffen mewn dwy 56 munud a Gwydion Williams tair awr 15 munud.

Ras hwyl Cwrtnewydd a Felipe Jones o Aberarth yn ennill y ras mewn 21 munud 40 eiliad, 2il Glyn Price Sarn Helen 23 munud 21 munud, a cyntaf d40, 3ydd Jack Davey Aberarth 23 munud 42 eiliad, 4ydd ac ail d40 Michael Davies Sarn Helen 24 munud 05 eiliad, 5ed a 3ydd dynion agored Carwyn Thomas Sarn Helen24 munud 12 eiliad, a 3rd d40 Eric Rees Sarn Helen 28 munud 15 eiliad. 1af d50 Richard Marks Sarn Helen 24 munud 44 eiliad, 2il Mark Dunscombe Sarn Helen 26 munud 48 eiliad, 3ydd Hywel Wyn Jones Amman Valley 27 munud 32 eiliad. Ras menywod agored y tair yn dod o glwb Sarn Helen 1af Sian Robers-Jones 29 munud 45 eiliad, 2il Caryl Davies 30 munud 43 eiliad, 3ydd Dee Jolly, 1af m35 Sue Thomas Rhedwyr Emlyn, 32 munud 14 eiliad, 2il Eleri Rivers Llanwenog 33 munud 48 eiliad, 3ydd Caroline Jones Gorsgoch 37 munud 31 eiliad 1af m45 Helen Willoughby Sarn Helen 31 munud 22 eiliad, 2il Ellen Page 35 munud 05 eiliad, 3ydd Heulwen Jones 37 munud 52 eiliad. Dynion sarn Helen enillodd y tîm Glyn Price, Michael Davies, Carwyn Thomas a Dylan Lewis.

Caitlin Page yn ennill y ras y plant 3000 medr mewn 12 munud 22 eiliad, 2il Aled Sion Jones Aberystwyth A/c 12 munud 59 eiliad, 3ydd Tomos Aeron Jones Sarn Helen 13 munud 41 eiliad, 4ydd Iwan Evans Sarn Helen 13 munud 56 seconds, 5ed Luned Jones Llambed 16 munud 36 eiliad, 6ed Rhys Davies Llambed 18 munud 06 eiliad. Hefyd Caitlin Page yn derbyn medal efydd yn ras 1500 medr pencampwriaeth trac Gorllewin Cymru yng Nghastell-nedd.

Dechreuwyd saithdeg o redwyr ras Sarn Helen 16.5 o filltiroedd fore dydd Sul allan o glwb rygbi Llamed. Noddwyd y ras gan Simon Hall, cigydd Jones Llanbed, a Dŵr Tŷ Nant, a diolch i glwb rygbi a phêl-droed Llambed am gael defnyddio’r cyfleusterau. Jonathan Pugh o Builth & district ennilloedd y ras mewn awr 50 munud 08 eiliad, 2il Robert Dyde Pembs Harriers 1 awr 56 munud 07 eiliad, 3ydd dynion agored Daniel Hooper 1 awr 57 munud 19 eiliad, 3ydd a 1af d40 Glyn Price Sarn Helen 1 awr 56 munud 26 eiliad, 2il d40 Michael Davies Sarn Helen 1 awr 57 munud 55 eiliad, 3ydd Jonathan Jones Carmarthen Harriers 2 awr 04 munud 48 eiliad, 1af d50 Peter Osborne Llanelli AAC 2 awr 10 munud 11 eiliad, 2il Kevin Griffiths Trots 2 awr 11 munud 17 eiliad, 3ydd Dave Powell 2 awr 12 munud 48 eiliad. Louise Barker Aberystwyth a/c enillodd ras merched mewn 2 awr 19 munud 23 eiliad, 2il Carol Moseley Port Talbot Harriers 2 awr 23 munud 32 eiliad, 3ydd Sue Thomas Emlyn Runners 2 awr 42 munud 35 eiliad, 1af menywod agored Caryl Davies Sarn Helen 2 awr 30 munud 98 munud, 2il Sian Robers-Jones 2 awr 30 munud 45 eiliad, 3ydd Eleri Connor Penarth & District 2 awr 46 munud 24 eiliad, 1af m45 Judith Oakley Port Talbot Harriers 2 awr 30 munud 45 eiliad, 2il Helen Willoughby Sarn Helen 2 awr 43 munud 52 eiliad, 3ydd Anita Worthing Aberystwyth a/c 2 awr 44 munud 37 munud. Sarn Helen dynion, Glyn Price, Daniel Hooper, Michael Davies, a Steven Holmes cipiodd y wobr tîm, ac Aneurin James yn cipio’r cwpan Phil a Joy Patterson.

Aled Sion Aberystwyth a/c Jones roedd yn gyntaf yn ras 1.5 o filltiroedd 12 munud 05 eiliad, 2il Aiden Jones, 14 munud 18 eiliad, 3ydd Tomos Jones 14 munud 35 eiliad, Cyntaf ras merched Caitlin Page Sarn Helen 12 munud 13 eiliad, 2il Seren Austin-Spooner Sarn Helen 14 munud 31 eiliad, 3ydd Michelle Priddey Sarn Helen 17 munud 51 eiliad. Cyntaf plant ysgol gynradd Llywelyn James Sarn Helen 12 munud 37 eiliad, 2il Daniel Jones Sarn Helen 13 munud 05 eiliad, 3ydd Aled Thomas Llangadog 13 munud 11 eiliad, a’r marched 1af Beca Jones Sarn Helen 14 munud 38 eiliad, 2il Grace Page Sarn Helen 15 munud 19 eiliad, 3ydd Fflur Jones 16 munud 50 eiliad. Ras nesaf y clwb yw ras hwyl Felin Fach 29 Mehefin, plant 6.30yh, oedolion 7.30yh.

# Llanfair Clydogau

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad i Sue Lodwick Rees, Rhiw, Llanfair a’r teulu ar farwolaeth ei gŵr Timothy Lodwick, a fu farw ar ôl salwch byr yn ysbyty Glangwili. Roedd yn gyfarwydd i lawer yn ardal Llandysul, gan mae ef a’i wraig Sue a redai siop Bradford House yn y dre.

**Sefydliad y Merched**

Ar Ebrill 26ain cafwyd noswaith ddiddorol yng nghwmni Mr Michael Morgan, pan ddaeth i siarad a ni am hanes y ffatri laeth yn Felinfach. Dechreuodd ei yrfa yno yn fachgen ifanc o’r ysgol a gorffen pan wnaeth y ffatri gau.Roedd y casgliad o artiffactiau eang oedd wedi eu gasglu yn dweud eu hanes eu hun, a llawer ohonom wedi tyfu i fyny gyda’r chyrns llaeth a’r tren bach a’r cyfan yn dod nôl a llawer o atgofion o oes sydd wedi diflannu. Roedd y noson yn agored i bawb, a rhoddwyd croeso cynnes i bawb. Cafwyd lluniaeth arbennig fel arfer, wedi ei baratoi gan Julia, Sue, June Paula a Charlotte.



Cynhaliwyd Rali Gwanwyn Mudiad Ceredigion ar Ebrill 28ain yn neuadd y pentref Llanrhystud. Bu cystadlu brwd, gyda chynyrch a chrefftau neilltuol wedi dod o bob rhan o Geredigion, a rheini wedi ei arddangos yn wych. Cymerodd ffyddloniaid Llanfair ran fel arfer, gyda llwyddiant a chipio cwpan adran y cynnyrch. Yr ennillwyr oedd Elaine Coombes, Penlanmedd, Eleanor Evans, Nantymedd, Yola Wilson, Panteg ac Iris Quan, Blaencwm.

Llongyfarchiadau iddynt ac i bawb a gymerodd rhan.

**Cinio Blynyddol Cyngor y Gymuned**

Ar nos Sadwrn, Mai 19eg cynhaliwyd cinio cymuned Llanfair a Chellan yn y Daffodil, ym Mhenrhiwllan yn cynnwys pobol o’r ddau bentref. Trefnwyd y noson gan Liz Mercer, Gelliddyfod, clerc y cyngor. Cafwyd bwyd arbennig o flasus gyda phawb wedi mwynhau yn fawr iawn.



**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Mathew Millar, Cysgod y Coed, Heol Llanfair ar basio ei brawf gyrru. Da iawn ti.

**Grŵp ‘Whine a Twine’**

Cafwd prynhawn hynod o ddiddorol dydd Iau diwethaf, Mai 17eg, pan aeth y grŵp, trwy wahoddiad oddiwrth Jen Jones, i dreulio ei seshiwn yng nghanolfan Cwiltiau Cymru. Cafwyd cyfle i fynd o amgylch yr arddangosfa cwiltiau gwych sydd ymlaen yno ar hyn o bryd. Mae y grŵp fel arfer yn cwrdd yn neuadd y pentref ar prynhawn dydd Iau bob pythefnos, a mae croeso i unrhyw un sydd an wnio, gwau a.y.b. i ymuno a chael prynhawn o weithio a chymdeithasu dros panad o de.

**Helfa Drysor**

Cynhaliwyd Helfa Drysor y pentref ar Nos Wener Mai 11fed wedi ei threfnu gan Katie Linda a Laurence, ennillwyr y llynedd.Cymerodd wyth modur ran yn yr helfa i chwilio am y cliwiau oedd wedi eu dosbarthu dros ardal Llanfair a Chellan. Yr ennillwyr oedd modur Alex Fox gyda Jean Walters, Rhonwen Thomas, Brynmor a Llinos. Roedd gwobr o £40 i’r ennillwyr,gydag Alex a’u char yn ei roddi tuag at elusen “Race for Life”hi hefyd yn cymryd rhan yn y digwyddiad gyda Brynmor a Llinos. Gwnaeth llawer oedd yn cymryd rhan yn yr helfa roi arian tuag at yr elusen hefyd.Y cliw diwethaf arweinodd bawb tuag at Cwmann a lawr i’r tafarn i orffen y noson gyda swper gwych a phawb wedi mwynhau.

# Cwmann

**Dyweddïad**
Llongyfarchiadau i Catrin Williams, Wyngarth ar ei dyweddïad â Colin Evans o'r Barri. Mae'r ddau wedi ymgartrefi'n hapus yn y Barri erbyn hyn.
Llongyfarchiadau hefyd i Hannah Jane Davies, Dolcoed a Rhidian Phillips o Gaerdydd ar eu dyweddïad. Mae'r ddau wedi ymgartrefi'n hapus yn Nghaerdydd erbyn hyn.

**Cartref Newydd**
Croeso i Hywel a Rhiannon a'r teulu i Bencrug, Cwmann a gobeithio y byddwch yn hapus yn y pentref.

**Ysbyty**
Dymuniadau gorau i Harold Williams, Tyhowel sydd yn Ysbyty Tywysog Phillip Llanelli. Mae pawb yn meddwl amdanat.

**Clwb 255 mis Mai**
£100 – Gethin Jones, Croesor; £50 – Dorian a Nia Jones, Gwynfryn; £20 – Wendy Evans, Parcyrhos, Blaencwrt; £15 – Rhiannon Lewis, Tanlan; £10 – Mr a Mrs Eddie Thomas, Arwyn; Stanley Evans, Coed y Waun, Parcyrhos; Mr a Mrs Winford Edwards, Ddeunant, Parcyrhos; £5 – Muriel Davies, 2 Nant-y-Glyn; Mr a Mrs Sid Mason, Bryndolau, Pumsaint a Graham d/o Tyhowell.

**Llwyddiant Cerddorol**
Llongyfarchiadau i Elan Jones, Araul am basio Step 1 gydag anrhydedd ar y piano o dan nawdd y 'London College of Music.' Cafodd Elan 95%. Da iawn ti.

**C.Ff.I. Cwmann**
Bu aelodau C.Ff.I Cwmann yn brysur tu hwnt dros yr wythnosau diwethaf yn paratoi ar gyfer Rali Ffermwyr Ifanc Sir Gâr. 12fed o Fai oedd y diwrnod mawr,gydag aelodau yn codi yn fore a theithio i faes y Sioe, Nant y Ci yng Nghaerfyrddin i ymuno a bwrlwm y cystadlu. Cafwyd llwyddiant yn y cystadlaethau canlynol: 1af Texel Sheep Judging - Aled Thomas a Louise Jones; 2il Sheep Shearing - Aled a Rhydian Thomas; 2il Dressing a Leader - Daniel Harrison a Tomos Jones; 2il Cookery Canapes - Morgan Lewis a Manon Williams; 3ydd Hair and Nails - Aled Bowen a Gwenann Jones; 3ydd A2 Fasion Board - Louise Jones; 4ydd Mock Wedding - Siân Elin Williams, Manon Williams, Aled Bowen, Louise Jones, Tomos Jones, Carwyn Lewis, Aled Thomas, Daniel Harrison, Sioned Russell, Tomos Aeron Jones.
Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu a diolch yn fawr iawn i bawb fu'n cynorthwyo ac yn dysgu'n aelodau. 15fed oedd y tîm iau gyda'r tîm hyn yn dod yn 11fed. Yn sicr uchafbwynt y diwrnod oedd y Seremoni lle cafodd Louise Jones ei anrhydeddu yn Llysgenhades C.Ff.I Sir Gâr 2012. Anrhydedd o'r mwyaf a chlôd i Glwb Cwmann. Roedd Louise a'i dirprwyon yn edrych yn smart iawn.
Y nos Sadwrn canlynol cafwyd ein cinio blynyddol yng ngwesty'r Talbot Tregaron. Wedi teithio ar y bws o Gwmann i Dregaron cafwyd pryd tri chwrs blasus iawn yng nghwmni ffrindiau a chyfeillion clwb Cwmann. Cafwyd neges bwrpasol gan ein llywydd Mr Alwyn Roberts yn ogystal ag ein siaradwr gwadd Mr Arwel Jones Is Gadeirydd y Sir. Anrhydeddwyd Aled Bowen a chwpan aelod hyn y flwyddyn a Siân Elin Williams yn ennill y cwpan am aelod iau. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt. Ac yna ymlaen i'r gemau a drefnwyd gan Mair a Siân Elin Williams. Sbort a diddanwch drwy gydol y nos.
Ar nos Iau'r 17eg o Fai ymunodd nifer o fechgyn hyn y clwb gyda chlwb Dyffryn Cothi i greu tîm i gystadlu yng nghystadleuaeth rygbi 7 bob och y sir yng nghlwb rygbi Llangadog. Ymdrech dda iawn gan y bechgyn.



Aelodau a swyddogion CFfI Cwmann gyda'u gwobrau am eleni yn y cinio blynyddiol yn y Talbot Tregaron.

**Sefydliad y Merched**
Daeth y Gangen ynghyd ar nos Lun 8fed o Fai yn Heol Hathren Cwmann i fynd ar daith, wedi ei threfnu gan Alun Jones, i ardal Rhydcymerau. Yn y pentref gwelwyd bedd D. J. Williams a oedd wedi cael carreg newydd. Hefyd teithiwyd drwy'r goedwig i weld olion Esgair Ceir, cartref Tad a theulu David James Jones - GWENALLT, y fan lle cafodd ei ysbrydoli i ysgrifennu'r gerdd "Rhydcymerau".
Aethom adref drwy Farmers lle cafwyd swper blasus yn y Drovers. Diolchodd Iona Davies i Alun am drefnu a'n tywys ar daith mor ddiddorol. Enillwyd y raffl gan Ann Lewis.



Tîm pêl-droed merched Ysgol Carreg Hirfaen ar ddiwrnod gemau Cymru.

**Ysgol Carreg Hirfaen**
Llongyfarchiadau enfawr i'r plant a chymerodd rhan yn ras trawsgwlad Cymru yn ystod y mis. Braf oedd gweld sut gymaint o blant yn cynrychioli'r ysgol. Cafodd Beca Mai Roberts ras arbennig gan gipio'r ail wobr, Beca Ann Jones yn 5ed, Llywelyn James 6ed a Daniel Ifan Jones 7fed. Da iawn i Gwennan, Dafydd a Chelsea am gystadlu mor dda.
Yn dilyn ei buddugoliaeth ym Mhencampwriaeth Pel Droed Ceredigion yn gynharach yn y tymor, bu merched Carreg Hirfaen yn cynrychioli'r Sir ym Mhencampwriaeth Cymru yn Aberystwyth yn ddiweddar.
Bu'r profiad yn un bythgofiadwy i'r merched, y rhieni a staff yr ysgol wrth i'r tîm serennu yn erbyn goreuon Cymru a gorffen y gystadaleuaeth yn y drydedd safle.
Yn wir, ar ôl buddugoliaethau campus yn y gemau grŵp a chwarae yn fendigedig yn y chwarteri ac ennill o bum gôl i ddim yn erbyn Bro Tegid roedd gobeithion uchel iawn gan y cefnogwyr o gyrraedd y ffeinal.
Mewn gêm gyn-derfynnol hynod gyffrous yn erbyn Ysgol Rhydypennau, Caerdydd, gorffennodd y gêm yn gyfartal – un gol yr un. I mewn felly i amser ychwanegol ac er i'r ddau dim flino'n arw creuwyd nifer o gyfleuon da i ennill y gêm.
Cafwyd arbedion gwych gan Chelsea Jenkins yn gôl Carreg Hirfaen ond pan gymerodd Rhydypennau gic gornel sydyn doedd dim y gallai wneud i arbed taran o ergyd o ymyl y cwrt cosbi i ennill y gem i ferched Caerdydd. Aeth Rhydypennau ymlaen wedyn i ennill y gêm derfynnol. Llongyfarchiadau iddynt.
Er y siom o golli mewn gem mor dda gall merched Carreg Hirfaen ymfalchio yn eu llwyddiant mawr yn ystod y gystadleuaeth. Daliwch ati ferched!!!
Treuliodd disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 dridiau cyffrous iawn yng Ngwersyll Awyr Agored Parc Manor ger Llanwrtyd Wells yn ddiweddar. Dyma'r tro cyntaf i'r ysgol ymweld a'r ganolfan hon a mawr oedd yr edrych 'mlaen at yr antur.
Mwynhawyd llu o weithgareddau anturus fel dringo, abseilio, teithio ar wifren zip, cyfeiriannu, saethu reiffl, sgiliau goroesi mynydd, a'r uchafbwynt i bawb sef dysgu ceufad ar y llyn ac adeiladu rafft.
Y sbort mwyaf i'r plant oedd gweld Mr Evans a Mrs Dana yn moelu eu canw dwbl a diflannu tan ddŵr oer y llyn! Roedd llawer o dynnu coes yn dilyn hyn wrth gwrs ond tro'r staff oedd hi i dynnu coes bore trannoeth wrth i rafft y merched

# Cwmann



Tîm Hoci CFfI Cwmann a enillodd gystadleuaeth Sir Gâr yn erbyn Clwb Llangadog. Bydd Carwyn, Tomos, Aled Jones, Rhydian ac Elen yn cynrychioli'r sir ar lefel Cymru ym mis Mehefin. Llongyfarchiadau.



Tîm trawsgwlad yr ysgol gyda Beca Mai a ddaeth yn ail yn ras Trawsgwlad Cymru.

chwalu'n ddarnau allan ar y llyn a hwythau'n gorfod nofio nôl i'r lan yn wlyb sopen! Sbort mawr.

Diolch yn fawr i Mrs Dana a Paul Butch am roi eu hamser i ddod gyda'r ysgol ar y daith.

Cafwyd prynhawn hwylus ar gaeau ysgol Llanybydder yn ddiweddar wrth i holl blant Cyfnod Allweddol 2 cymryd rhan yng nghemau chwaraeon potes yr Urdd. Cawsom hwyl yn chwarae amrywiaeth o gemau. Diolch i'r Urdd am drefnu.

Cawsom noson addysgiadol llwyddiannus yn ystod y mis lle cafodd pob rhiant y cyfle i weld sut mae llythrennedd yn cael eu dysgu trwy'r ysgol. Cafodd y rhieni rhagflas o wersi Llythrennau a Synau a Read Write Inc.

Cafodd y plant y cyfle i wisgo dillad coch, gwyn a glas i ddathlu'r Jiwbili. Cafwyd bwyd parti yn ystod amser cinio. Bu pob pentyn yn ffodus i gael mwg personol yn rhoddedig gan Gyngor Bro Pencarreg a'r ysgol.

Mae Mrs Bexton wedi bod yn brysur iawn yn helpu ni i blannu hadau yn yr ardd. Rydym yn tyfu amrywiaeth o lysiau eleni eto. Diolch yn fawr iawn iddi am ei holl cymorth.

Rydym wedi cymryd rhan mewn Wythnos Genedlaethol Gerdded i'r ysgol. Braf oedd gweld pawb yn gwneud sut gymaint o ymdrech.

Dyma ddyddiadau pwysig i roi yn eich dyddiaduron. Bydd mabolgampau'r ysgol yn cael ei gynnal ar gae y pentref ar ddydd Gwener, 15fed o Fehefin, i ddechrau am 12.30y.p.

Bydd mabolgampau Dyffryn Cothi yn cael ei gynnal ar ddydd Llun, Mehefin 25ain yn Ysgol Gynradd Llansawel. Mae croeso cynnes i bawb felly dewch i gefnogi.

**Ymddeol**

Dymuniadau gorau i Jean Jenkin Tandderwen sydd wedi ymddeol ar ôl 48 mlynedd o wasanaeth yn siop Boots Llambed. Ymddeoliad hapus oddi wrth y staff i gyd Nia, Dorian, Undeg a Llyr.

**Swydd Newydd**

Llongyfarchiadau i Owain Jones, Trewerin, ar gael ei ethol yn ddirprwy bennaeth yn Ysgol Gyfun Aberaeron.

Rhifyn mis Gorffennaf
Yn y Siopau
**Gorffennaf 5ed**
Erthyglau, Newyddion a Lluniau i law erbyn
**Mehefin 25ain**

# Gohebiaeth

Annwyl ddarllenydd,

Mae Cwmni Da yn chwilio am atgofion pobl am raglenni S4C ar gyfer rhaglen fydd yn dathlu penblwydd y sianel yn 30 oed eleni.

Beth bynnag fo'r stori, mae gennym ddiddordeb ei chlywed.

Cysylltwch â Cwmni Da, Hen Ysgol Aberpwll, Ffordd Bangor, Y Felinheli, Gwynedd LL56 4JS. Ffôn 01248 671167 neu E-bost meinir.williams@cwmnida.tv

Annwyl Ddarllenydd,

Mae cwmni Telesgop wrthi'n ymchwilio cyfres newydd ar gyfer S4C o'r enw Y SIPSIWN. Taith mewn carafan yn cael ei dynnu gan geffyl lliw fydd sail y gyfres a hynny o Langrannog i Aberteifi, Castellnewydd Emlyn, Crymych, Trefdraeth gan orffen yn Abergwaun. Darlledir y rhaglenni yn fyw bob nos o nos Lun 25ain o Fehefin tan nos Sadwrn y 30ain o Fehefin eleni.

Canolbwyntio ar hanes a thraddodiadau ac atgofion am y Sipsi Romani a arferai grwydro Cymru, y byddwn yn ei wneud yn y gyfres. A oes gyda chi tybed atgof, neu lun neu stori?

Ifan Jones Evans a Shân Cothi sy'n cyflwyno, gyda Gari Wyn yn adrodd hanes teulu Abram Wood a'i ddisgynyddion. Cysylltwch gyda fi, Lowri Thomas, Telesgop, E.thos, Heol y Brenin, Abertawe, SA1 8AS neu ar e-bost Lowri.thomas@telesgop.co.uk neu ar y ffôn – 01792 824567.

Annwyl Ddarllenydd

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg) eisiau clywed gan fusnesau a mudiadau lleol sydd am fanteisio ar eu cynllun profiad gwaith newydd i fyfyrwyr israddedig

Yn ogystal â darparu nawdd ariannol i fyfyrwyr sy'n astudio eu cwrs gradd yn rhannol, neu'n llawn drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'r Coleg yn y broses o sefydlu cynllun Profiad Gwaith ar gyfer y deiliad yr ysgoloriaethau.

Os ydych chi'n gyflogwr sy'n gweithredu'n ddwyieithog yn y sector gyhoeddus, y sector breifat, y trydydd sector, neu'n fudiad elusennol - cysylltwch â ni! Gallai'r myfyrwyr gefnogi eich cwmni i gyflawni prosiectau penodol, neu gynnig cymorth a chefnogaeth dydd i ddydd yn eich swyddfa.

Dywedodd Dr Gwennan Schiavone, Ysgrifennydd ac Uwch Reolwr Academaidd y Coleg ; "Mae'r Coleg yn ymrwymedig i gyfarfod â'r galw am sgiliau dwyieithog yn y gweithle, ac rydym yn awyddus i gydweithio gydag ystod eang o gyflogwyr ar draws Gymru".

Lisa Haf, 02920 870945
l.haf@colegcymraeg.ac.uk


Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad, Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriel a Gwasanaeth fframio lluniau ayb
Siantí
Uned 2 Monumental Works,
Stryd y Fro, Aberaeron
gyferbyn a Banc y Natwest
01545 571510
www.sianti.org

Toriad Taclus
Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top
Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni
Cyfreithwyr
Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk
yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol
*Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref*

Ymgynghorwyr Yswiriant
*Eryl Jones Cyf*
Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?
Car, lori, fan, beic modur
Yswiriant tŷ/ cynnwys
Teithio
Fferm a busnes
Cyfrifoldeb
Anifeiliaid
Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad
Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401
Ffacs: 01570 422562
Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS ARMS

Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn, Prydiau mewn basged ar gael bob nos.
Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.
Cellan, Llambed
01570 422895

# Drefach a Llanwenog



Ian a Carwyn Lewis, Gwarcoed Einon, Llanwenog gyda'r gwobrau a enillwyd ganddynt gyda'r fuwch Ddu Gymreig 'EINON GWENNO' a ddyfarnwyd yn 'Fuwch y Flwyddyn 2011' gan Gymdeithas Gwartheg Duon Cymreig. Hefyd yn y llun yn cynorthwyo gyda'r gwobrau mae Caryl Griffiths. Cyflwynwyd y gwobrau iddynt yng nghinio blynyddol y Gymdeithas ym Machynlleth yn ddiweddar.



Parc Antur newydd Ysgol Llanwenog

**Y Gymdeithas Hŷn**

Taith i Ganolfan Treftadaeth y Rhondda yn Nhrehafod ger Pontypridd oedd trip mis Mai, a braf oedd cael cwmni sawl ffrind 'newydd' ar y bws.

Wedi aros ym Mhontsenni am goffi, aethpwyd ymlaen i'r ganolfan Treftadaeth sydd wedi ei sefydlu ar safle hen bwll glo Lewis Merthyr. Bu'n rhaid gwahanu i ddau grwp er mwyn cael ein tywys o gwmpas, a chael hanes y pwll fel yr oedd yn ei hanterth, a'r miloedd o lowyr yn gweithio yno, - nifer o ddynion wedi mynd lawr i'r De o Geredigion i chwilio am waith.

Caed cyfle i edrych o gwmpas yr Amgueddfa fechan yno yn portreadu tai y glowyr cyn mwynhau 'paned yn yr oriel ar y llawr uchaf, a gweld yr arddangosfa grefft ar y llawr honno.

Ymlaen wedyn i ganolfan Arddio Pugh's yn Nhreforgan, cyn cychwyn am adref a chael swper blasus yn y Buck Inn ym Mhontlliw.

Bydd y trip nesaf yn mynd i Llanystumdwy a Chricieth ar y 13eg o fis Mehefin. Enwau i Yvonne 480590.

**Neuadd y Pentref.**

Clwb 100 - Ebrill 1af Mrs Glynis Morris, Cae Ceffylau. 2ail Mrs Terresa Brain (Greenhill). Clwb 100 – Mai 1af Mrs Annie Bowen, Heol y Coleg, Llambed. 2ail Carys Jones, Awelon

**Prawf Gyrru**

Llongyfarchiadau i Sioned Hatcher, Abernant ar phasio ei phrawf gyrru car yn ystod y mis. Pob lwc ar yr heol fawr a chymer ofal.

**Gwellhad Buan**

Gwellhad buan i Mrs Nancy Evans, Hazeldene yn dilyn ei llawdriniaeth yn Ysbyty Tywysog Phillip, Llanelli yn ystod y mis. Gobeithio eich bod yn cryfhau bob dydd.

Yn ystod mis Mai hefyd cafodd Megan, Ger y Nant anffawd ac fe gafodd dolur ar ei phenelin. Bu yn yr ysbyty am ddwy noson yn dilyn llawdriniaeth ond o gwmpas nawr gyda phlastar. Gobeithio y bydd pethe'n well erbyn bydd Clonc yn ymddangos.

**Cydymdeimlo**

Daeth newyddion trist ar draws teulu Llysderi yn ystod y mis pan glywyd am farwolaeth sydyn ofnadwy cefnder Geraint ym mherson Sam Rees o Gribyn. Derbyniwch ein cydymdeimlad llwyraf a chwi fel teulu.

**Dychwelyd adref**

Braf yw cael croesawu Siwan Davies, Llysderi yn ôl adref yn dilyn ei thrip o gwmpas y byd ers diwedd mis Ionawr.

**Eglwys Santes Gwenog**

Agorwyd Festri'r Pasg trwy weddi gan ein Ficer, Parch Susie Bale. Talwyd diolchiadau ganddi i'r swyddogion âg aelodau am eu cydweithrediad hwylus a frwdfrydig yn ystod y flwyddyn.

Ail etholwyd y Swyddogion fel y ganlyn :-

Warden y Ficer a'r Ysgrifennydd – Mr Keith Goodall, Warden y Bobl – Ms Nia Evans a'r trysorydd Mrs Lynne Goodall. Trafodwyd y mantolen a phenderfynwyd cynnal nifer o weithgareddau i gadw'r cyfrifon yn foddhaol. Ar ddiwedd y mis teithiodd y bedair Eglwys i Gadeirlan Tyddewi. Ymunwyd mewn gwasanaeth Foreol yno, cyn ymweld a Chysegrfan Dewi Sant sydd ar ei newydd wedd. Ein tywyswr oedd Deon y Gadeirlan Parch Dorrien Davies. Cynhaliwyd ocsiwn ar Fai 26ain gan rhannu'r elw rhwng Ty Hafan a choffrau'r Eglwys. Yn ystod y mis cynhaliwyd cwis gyda Chaws a gwin, a gwnaethpwyd elw o £100.

Bu grŵp o fobl byddar yn ymweld a'r Eglwys a'r Ysgol yn ystod y mis. Cawsant groeso cynnes gan ein Ficer, Parch Susie Bale.

Dymunwn adferiad buan i bawb sydd yn anhwylus naill ai gartref neu yn yr ysbyty. Ein cydymdeimlad dwysaf i'r teuluoedd sydd wedi colli eu hanwyliaid yn ddiweddar.

**Ysgol Llanwenog**

Cafwyd cyffro mawr yn ddiweddar pan adeildawyd Parc Antur newydd ar dir yr ysgol. Bu nifer o rieni yn ddiwyd iawn yn ystod sawl penwythnos yn adeiladu'r cyfarpar, ac mae ein dyled yn fawr iddynt hwy. Diolch yn fawr am eich gwaith caled. Mae'r plant wrth eu bodd yn datblygu sgiliau dringo a phob math o sgiliau eraill wrth dreulio amser arno.

Bu dau dîm o'r ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth Chwaraeon Potes yr Urdd yn Ysgol Gynradd Llanybydder. Cafwyd prynhawn brwd o gystadlu gyda nifer fawr o ysgolion y cylch yn dod at ei gilydd i fwynhau'r prynhawn.

Hyfryd yw croesawu Mrs Louise Thomas fel myfyrwraig 'Cam wrth Gam' i'r ysgol. Bydd yn cynorthwyo yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen. Braf hefyd yw derbyn cymorth Miss Angharad Evans yn y Dosbarth Babanod hefyd . Mae Angharad yn dilyn cwrs NVQ yng Ngholeg Ceredigion Aberystwyth.

Bu Peter Whitfield ar ymweliad â'r ysgol yn ddiweddar er mwyn rhoi profiadau ymarferol i'r plant wrth ddatblygu'r thema presennol sef 'Y Garej'. Cafwyd llawer iawn o hwyl wrth ddysgu sut mae newid olwyn a llawer o weithgareddau diddorol arall. Diolch hefyd i Mr Bracy am ei waith celfydd wrth greu adnoddau ar gyfer 'Garej Gwenog' ar dir yr ysgol.

Braf oedd gweld cymaint o ddisgyblion yn cymryd diddordeb yn y Clwb Ffitrwydd wythnosol newydd gyda Mr Roderick. Maent yn mwynhau'r cyfle i brofi amrywiaeth o weithgareddau ymarferol er mwyn hybu ffitrwydd a bywyd iach.

Mwynhaodd y plant y sesiynau criced dan ofal Rhidian yn ystod y mis. Cawsont gyfle i ddatblygu sgiliau a chymryd rhan mewn gemau yn erbyn ei gilydd.

Bu disgyblion blwyddyn chwech yn ymweld â'r Ysgol Uwchradd ar gyfer diwrnod pontio er mwyn ymgyfarwyddo cyn symud ymlaen ym Mis Medi

Llongyfarchiadau mawr i Mr Eilir a Catrin Evans, Henbant ar enedigaeth eu trydydd plentyn sef mab bach o'r enw Efan.

Enillwyr Clwb 100 yr ysgol Mis Ebrill oedd: 1af – Sioned Fflur Davies; 2ail Shirley Davies; 3ydd Elen Morgan. Enillwyr Mis Mai: 1af John Davies Bwlch Mawr; 2ail Fflur Morgan; 3ydd Abigail Gregson.

Cofiwch am ein diwrnod Hwyl Dydd Sadwrn Mehefin 30 ain i ddechrau am hanner dydd . Llywydd y dydd bydd Mr John Davies, Bwlchmawr. Dewch yn llu i gymryd rhan yn ein 'Her Cadw'n Sych' fydd yn agored i dimoedd o bedwar o bob oedran.

**C.Ff.I Llanwenog**

Pan roedd pawb y tu fewn yn cuddio rhag y glaw, fe aeth aelodau o glwb ffermwyr ifanc Llawnenog i gymeryd rhan yng Nghwis Iau y sir ar y 23ain o Ebrill, fe daeth y clwb yn 8fed ar ddiwedd y noson felly Da iawn i bawb a wnaeth cyfrannu tuag at y tîm.

Cafwyd cystadleuaeth chwaraeon y sir ei gynnal ar yr 2il o Fai, eto fe wnaeth nifer o aelodau gymeryd rhan ynddo, ac rwyn siwr i bawb fwynhau.

Helfa drysor blynyddol y clwb oedd ar yr 7fed o Fai, er gwaethaf y tywydd fe wnaeth pawb gyrraedd yn ôl efo gwen ar eu gwynebau, ond da iawn i gâr y Bellamy's a ddaeth yn fuddugol ar ddiwedd y noson.

Fel rwyn siwr bod pawb yn gwybod erbyn hyn bod Rali blynyddol C.FF.I Ceredgion yn cael ei gynnal yn Llanwenog eleni ar fferm Llechwedd. Bu'r clwb yn hynnod o brysur yn paratoi ar ei gyfer gyda Gwennan Davies yn Frenhines y sir, a Ceris Jones yn un o'r morwynion.

# Llangybi a Betws

**Hamdden**

Y wraig wadd yng nghyfarfod mis Mai oedd Mrs Erika Davies o blanhigfa Grannell. Croesawyd hi yn gynnes gan y Llywydd Janet Farrow. Cawsom sgwrs ddiddorol a bu pawb yn werthfawrogol o'r wybodaeth ac am hanes sut y bu i'r fusnes gael ei sefydlu. Cafwyd amgrymiadau defnyddiol ynglyn â phlannu basgedi crôg. Rhoddwyd pleidlais wresog o ddiolch i'r wraig wadd gan Joyce Harris. Cafwyd paned o de a bisgedi i ddiweddu y cyfarfod wedi eu rhoddi gan Aelwen Morgan. Enillwyd y raffl gan Glenys Lloyd, Mair Spate, Sally Davies, Ceinwen Jones, Maisie Morgans, Erika Davies, Morina Davies, Rowena Williams a Betty Green.

**Merched y Wawr**

Croesawyd pawb i gyfarfod mis Mai gan y llywydd Lettie Vaughan ac fe rhoddodd groeso arbennig i'r gŵr gwadd sef Roger Hartwell. Treuliwyd noson ddifyr a diwyd yn ei gwmni pryd y bu yn ceisio hyfforddi y merched sut i gynllunio basgedi crog ac fe gafwyd tipyn o hwyl wrth gyflawni y dasg. Enillwyd y gystadleuaeth am y fasged mwyaf deniadol gan Eleanor Evans. Gwyneth Jones fydd y llywydd am y flwyddyn nesaf a Mary Jones fydd y trysorydd. Rhoddwyd y raffl gan Gwyneth Evans ac Irene Lewis ac fe'u henillwyd gan Gwyneth Jones a Mair Spate. I ddiweddu y cyfarfod cafwyd paned o de a bisgedi wedi ei rhoddi gan Mary Jones a Lettie Vaughan. Fe fydd yna gyfarfod arall cyn diwedd y tymor.

**Adferiad**

Croeso adref a dymuniadau gorau am adferiad buan a llwyr i Mrs Dilwen Davies, Tegfan ar ôl iddi dreulio ysbaid yn Ysbyty Bronglais. Yn yr un modd anfonir dymuniadau gorau am wellhad llwyr i Mrs Geoffrey Hicks, Pwllglas. Yntau hefyd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar.

Brysiwch wella eich dau.

**Ysgol Y Dderi**

Unwaith eto cawsom fis prysur yn Ysgol y Dderi, â'r dyddiadur yn llawn! Ar brynhawn Llun diweddar, aeth aelodau'r Urdd o flynyddoedd 3,4,5,a 6 i gymryd rhan mewn Chwaraeon Potes yn Ysgol Llanybydder. Cawsom brynhawn hyfryd (a sych!), allan yn yr awyr iach, yn mwynhau pob math o gêmau difyr. Diolch i'r Urdd am drefnu.

Fel rhan o weithgareddau'r tymor ar "Bethau Byw", mae'r holl ddisgyblion wedi mwynhau gweithdy gydag arbenigwr o "Zoolab", gyda chyfle i ddysgu am nifer o anifeiliaid ac i gyfarfod ag ambell i un diddorol hefyd! Yn ogystal â hyn, mae pob dosbarth

**C.Ff.I. Bro'r Dderi**



Llongyfarchiadau i'r grŵp dawnsio stryd a fu'n cystadlu yn niwrnod maes Cymru yn Aberhonddu ychydig wythnosau yn ôl, a buont yn llwydiannus i gael cydradd trydydd efo'i dadansoddiad o dawnsio stryd a oedd yn addas i'w berfformio yn seremoni agoriadol y gemau olympaidd sy'n cael ei gynnal yn Llundain eleni. Da iawn chi!

Ar noson y chwaraeon daeth y tîm pel-osgoi yn gyntaf ar ôl llawer o chwarae brwd a phob lwc iddyn nhw yn y rownd derfynol Cymru. Bu rhai o'n aelodau yn cystadlu yng nghwis y sir ac wedi mwynhau'r noswaith yn Llangeitho.



Aeth criw o blant Blwyddyn 6 Ysgol y Dderi i gynrychioli'r ysgol mewn cystadleuaeth Decathlon, yn Llanllwni. Roedd hwn yn gyfle gwych i'r plant ymarfer a defnyddio sgiliau penodol mewn deg gweithgaredd wahanol, ac ar ôl ymdrech arbennig gan bob un, tîm Ysgol y Dderi oedd yn fuddugol. Llongyfarchiadau iddyn nhw! Da iawn hefyd i'r plant a fu'n cynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth Traws Gwlad Cenedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth yn ddiweddar. Diolch yn fawr i'r staff a fu'n hyfforddi ac yn cynorthwyo gyda'r gweithgareddau allgyrsiol.

wedi cymryd rhan yn y "Great Plant Hunt"- gweithgaredd genedlaethol a drefnwyd gan Y Gerddi Botaneg Brenhinol yn Kew. Bu'r plant yn brysur iawn yn ddiweddar hefyd yn helpu Mr Roger i baratoi basgedi blodau i'w gosod tu allan i'r ysgol, ac yn plannu cynnyrch yn yr ardd gyda Mrs Helen.

Ar Ddydd Iau, yr 17eg o Fai, roedd hi'n ddiwrnod Twm Siôn Cati ac roedd y plant wrth eu bodd yn dysgu amdano gyda chymorth hwyliog Dafydd Morgan o Dregaron. Daeth cwmni teledu Tinopolis i ffilmio'r digwyddiad hefyd ar gyfer rhaglen "Heno" ar S4C. Yn ystod yr wythnos hon hefyd, cafodd Blwyddyn 4 gymryd rhan mewn gweithdy cerddoriaeth arbennig gan gwmni Bwmbastic, ac ar y diwrnod canlynol fe aethon nhw i fwynhau perfformiad o sioe gan yr un cwmni yn Theatr Felinfach.

Mae sawl un o staff a phlant yr ysgol wedi bod wrthi'n ddiweddar yn codi arian at achosion da, fel Ymchwil Cancr a Chancr y Fron, drwy gymryd rhan yn y "Moonwalk" yn Llundain ac yn y "Race for Life". Da iawn bob un ohonoch. Rydym hefyd wedi casglu tuag at elusen Cymorth Cristnogol yn yr ysgol, - diolch i bawb a gyfrannodd.


Ac yn olaf, cawsom y pleser o groesawu ymwelwyr o'r Eidal atom, fel rhan o'r prosiect Comenius, yn ystod y mis hwn. Bu tair athrawes a phedwar disgybl yn ein cwmni am bedwar diwrnod, ac fe gawsant fwynhau dysgu a chymdeithasu gyda staff a phlant y Dderi, yng ngweithgarddau dyddiol yr ysgol, ar ymweliad â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru gyda Blwyddyn 6, mewn cyngerdd gan blant yr ysgol ac mewn ambell i noson allan. Rhywbeth at ddant pawb!


Ceris Jones
yn trin gwallt yn eich cartref



Torri a sychu, steilo a lliwio, cwrlo a gosod gwallt ar gyfer achlysuron arbennig.
Prisiau rhesymol a
Diwrnod gostyngiad i'r henoed
**Ffoniwch: 07738 492613**
*Cwmann*
*ond yn barod i deithio'r ardal.*

WD Lewis a'i Fab
Masnachwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants
Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk
Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



**CEGIN GWENOG**
Abernant, Llanwenog
**Gwasanaeth arlwyo cyflawn ar gyfer pob achlysur**
- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

*Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi - boed yn fawr neu'n fach*
Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

LING DI LONG
**Bwyty Tsieinaidd a Chludfwyd**
13 Stryd y Bont, Llambed
**01570 422009**
Ar agor:
**12:00-14:30 a 17:00-23:00**
Cynigion arbennig bwffe
ac amser cinio
Darllenwch ein bwydlen
a'n cynigion arbennig ar Facebook

**WILLIAMS & BOURNE**
CYFREITHWYR.
COMISIYNWYR LLWON
Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
**1 Sgwâr Harford, Llambed**
☎ 01570 422206 🖷 01570423540
A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

# Llanbedr Pont Steffan



Tîm rygbi tan 14 Llambed gyda'r hyfforddwyr wedi iddynt ennill cystadleuaeth Plat Rygbi Sir Gaerfyrddin. Gwnaeth y tîm ennill yn erbyn Yr Aman yn y rownd derfynol:- Llambed 34 Yr Aman 5



Llongyfarchiadau i Rhidian Evans, Y Mans, Stryd Newydd gynt a Louise Martin o Devizes ar eu priodas yn Eglwys St Matthew, Rowde ar y 19eg o Fai.

**Cymdeithas Hanes**

Croesawyd pawb i'r Hen Neuadd gan Selwyn Walters, y Cadeirydd, a chymerwyd rhan gyntaf y noson gan y Cyfarfod Blynyddol. Rhoddwyd adroddiad ffafriol iawn gan y

Cadeirydd, gan ddiolch yn arbennig i Penny David am drefnu rhaglen ddiddorol o siaradwyr dros y tymor. Bwriedir cynhyrchu calendr eto am 2013, a'r thema fydd 'Ffermio' a phethau chysylltiedig. Gobeithio felly y daw yna luniau diddorol i law erbyn ddechrau'r tymor newydd ym mis Medi .

Yn yr un modd, derbyniwyd taflen ariannol lewyrchus oddiwrth Phillip Lodwick, y Trysorydd yn dangos fod y Gymdeithas yn mynd o nerth i nerth. Ail etholwyd y swyddogion a'r pwyllgor yn unfrydol, ac etholwyd y Parchedig Beti Morris yn aelod newydd i'r pwyllgor gwaith.

Siaradwr gwadd y noson oedd Keith Rees o'r Amgueddfa Wlân yn Nrefach Felindre, sydd wedi gweithio yno fel technegydd ers 27 mlynedd. Rhoddodd hanes drwy gyfrwng lluniau sut y bu i'r diwydiant gwlân ddatblygu yn Nyffryn Teifi, - digon o ddefaid yn cynhyrchu'r gwlân a digonedd o ddŵr i'w olchi. Y broses o gneifio a chribo'r gwlân gan ddefnyddio llysiau'r cribwr (teasles), yna'i nyddu a'i wehyddu'n wlanen ar ffrâm. Gwelid Pandy hwnt ac yma i olchi'r gwlanen, ei ffustio a'i bannu cyn ei roi i sychu. Diwydiant cartref oedd hyn i gyd i ddechrau, ond yna codwyd y ffatrioedd gwlân, lle cyflogwyd hyd at 80 o weithwyr, yn ddynion a gwragedd, - ac hyd yn oed plant ar ôl oriau ysgol ac ar ddydd Sadwrn.

Er i'r diwydiant edwino ers sawl degawd bellach wrth i bobol ddewis defnyddiau haws i'w golchi ac ati, mae'r rhod i weld yn troi fel petai unwaith eto, gyda gwerthiant blancedi a dillad gwlân ar i fyny. Gwlân hefyd yn cael ei ddefnyddio i insiwleiddio tai heddiw, er mwyn torri lawr ar y tanwydd a losgir.

Daeth Keith âg eitemau o frethyn gydag ef i'w dangos, megis hen grys gwlanen; darn o wlanen goch a ddefnyddyd ers llawer dydd i drin aml i salwch pan oedd hi'n ddrud i dalu am wasanaeth doctor; siol fagu a siol fach, a dilledyn wedi ei wneud o'r brethyn tapestri oedd mor boblogaidd yn 1960au.

Ychwanegwyd at y ddarlith wrth i'r aelodau ymateb i'r hyn a welwyd a'i glywed, a diolchwyd yn gynnes iawn i Keith Rees am noson ddiddorol dros ben gan y Cadeirydd.

Bydd dilyniant i'r noson hon ar y 19eg o fis Mehefin, pan fydd cyfle i'r aelodau ymweld ag Eglwys y Carcharorion Rhyfel Eidalaidd yn Henllan, cyn mynd ymlaen i'r Amgueddfa Wlân yn Nrefach Felindre. Os nad ydych wedi rhoi eich henw, cysylltwch â Penny David.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn a Mrs Sally Jones, Maerdŷ o golli ei brawd yng nghyfraith yn ddiweddar sef Mr Eifion Price o Aberteifi.

**Priodas Dda**

Ar ddydd Sadwrn, Mai 26ain priododd Rob Phillips, 3 Barley Mow â Delyth Morgans, Blaenfallen, Talsarn [un o olygyddion CLONC]. Dymuniadau gorau i chi yn eich bywyd priodasol ac yn eich cartref newydd yn Stryd Newydd, Llambed.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Morgan Lewis Aelwyd Llambed am ennill y wobr gyntaf am greu gwefan mewn cystadleuaeth i oedran blwyddyn 7, 8 a 9 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni.

**Llwyddiant Cerddorol**

Llongyfarchiadau i Tomos Jones, Glennydd am basio Gradd 1 gydag anrhydedd ar y piano o dan nawdd y 'London College of Music.' Cafodd Tomos farciau llawn yn y profion clust. Da iawn ti.

Llongyfarchiadau hefyd i Llion a Meirion Thomas, Gilfachwen, Rhodfa Glynhebog am fod yn llwyddiannus mewn arholiadau ffidil yn ddiweddar. Gwnaeth Llion basio Gradd 6 a Meirion Gradd 4. Da iawn chi fechgyn.

**Merched y Wawr**

Cafwyd y cyfarfod blynyddol ar nos Lun 14eg o fis Mai. Croesawyd pawb gan Morfudd Slaymaker y Llywydd a chanwyd can y mudiad i gyfeiliant Elma Phillips. Cydymdeimlodd a Ceinwen Jones ar golli ei Mam a darllenodd lythyr oddi wrth Pat Davies yn diolch i bawb am eu caredigrwydd yn ystod ei salwch. Ar ôl dewis y pwyllgor am y tymor nesaf croesawodd Dilwen Roderick un o'n haelodau, sef Brenda Morgan o Gwmann, i'n diddanu drwy arddangos ei gwaith Crefft Siwgr. Yr oedd yn bleser gweld gwaith mor brydferth a thaclus, yn cynnwys blodau o bob math ac addurno cacennau at bob achlysur. Estynnodd Dilys Godfrey ddiolch i Brenda am noson hwylus a diddorol. Enillwyd y raffl gan Eryl Jones a diolchodd Morfudd i Mary Davies, Rhiannon Jones ac Irene Jones am weini'r te a bisgedi. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fehefin 11eg - Helfa Drysor ar droed yn cychwyn o Shiloh am 7.00y.h.

**Bedyddwyr**

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llanbedr Pont Steffan ar Sul 20 Mai ym Methel Cwm Pedol a'r tywydd yn sych a ffafriol. Yr arweinydd gwadd oedd Mr Twynog Davies. Cymerwyd at y rhannau arweiniol yn y prynhawn gan Mrs Ray Davies a Mr Deian Thomas. Mwynhawyd gwledd ardderchog yng nghwmni'r plant a phob un ohonynt yn ymateb yn rhagorol i gyfarwyddiadau'r arweinydd. Yn ei ffordd gartrefol a di ffws mae gan Twynog y ddawn o dynnu'r gorau allan ohonynt. Cyfoethogwyd y cyfan yn fawr gan gyfraniadau unigol Lisa, Elan a Beca a'u lleisiau soniarus yn swyno pawb. Yn ôl yr arfer bu'r plant yn darllen yr emynau ac roedd sglein arbennig ar eu gwaith.

Llywyddwyd gan Delyth Timmis o Gaersalem ac roedd wedi paratoi cwis i'r plant yn seiliedig ar y Gemau Olympaidd a'u cysylltiad Beiblaidd. Roedd y plant wrth eu bodd yn ateb ei chwestiynau ac ar y diwedd yr enillwyr oedd Beca ac Osian Jones a chawsant eu gwobrwyo yn y pulpud gan dderbyn medal aur yr un oddi wrth Delyth. Am eu brwdfrydedd debyniodd y plant i gyd fedalau a phwysleisiodd Delyth mai'r cymryd rhan sy'n bwysig.

Yn ystod y prynhawn cafwyd datganiad swynol iawn o'r unawd hyfryd "Rwy'n dy weld yn sefyll" allan o'r sioe gerdd "Ann" gan Lowri Elen o Noddfa.

Llywyddwyd oedfa'r hwyr gan Mrs. Lynwen Jones Bethel Cwm Pedol a soniodd am ei chyfnod hapus yn aelod o'r Ysgol Sul yno. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mr David Thomas a Mr Eirian Morgan hefyd o Fethel. Cafwyd canu gorfoleddus a erys yn y cof am amser hir gyda'r arweinydd a'r cantorion ar eu gorau.

Diolchir yn gynnes iawn i Twynog am ei wasanaeth clodwiw yn ystod y dydd, i Elfyn ac Avril yr organyddion am eu cyfraniad gwerthfawr hwythau, i Emlyn am ei barodrwydd i arwain y rihyrsals eleni eto a Janet am baratoi'r plant, i swyddogion ac aelodau Bethel Cwm Pedol am eu trefniadau trylwyr yn cynnwys te blasus iawn, i'r cantorion o'r eglwysi eraill am eu cymorth mawr ac i bawb a gymerodd ran gan sicrhau diwrnod llwyddiannus dros ben a bendithiol iawn.

Diolchodd Twynog am y fraint o gael arwain y Gymanfa a thalodd deyrnged uchel iawn i'r plant gan gyfeirio atynt fel trysorau ar y galeri a datganodd ei werthfawrogiad hefyd i'r oedolion am eu canu bendigedig hwythau.

Braf yw nodi bod dyfodol y Gymanfa yn edrych yn sicr am sawl blwyddyn i ddod ac wrth droi tuag adre roedd pawb yn uchel

# Llanbedr Pont Steffan



Islwyn Williams Capten Clwb Bowlio Llambed, Anita Williams Llywydd, Ieuan Jones Capten, Morwen Thomas Ysgifenyddes, Hag Harris Maer Llambed, Bethan Lewis Trysorydd a Ronald Thomas Cadeirydd.



Tîm Pêl-droed o dan 16 oed Llanbedr Pont Steffan wedi ennill twrnament 5 bob ochr yn Aberaeron dechrau mis Mai o dan hyfforddiant Mr Paul Edwards.

iawn eu canmoliaeth o gyfraniadau gwerthfawr y plant a'r oedolion yn ystod y dydd oedd yn dangos ôl paratoi manwl.

Traddodwyd y fendith gan y Parchedig Athro Densil Morgan.

**Cydymdeimlad**

Estynnir cydymdeimlad dwysf â phawb sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y mis.

**Ymchwil y Cancr U. K Cymru**

Mae pwyllgor Ymchwil y Cancr Llambed a Llanybydder yn ddyledus iawn i Gôr Meibion Cwmann a'r Cylch am gyfraniad hael o £806 sef hanner yr elw a godwyd mewn cyngerdd llwyddiannus a drefnwyd ganddynt yn ddiweddar. Hefyd diolchir yn gynnes iawn i Gwmni Biffa Waste Services Llambed am rodd anrhydeddus o £3,117.12. Gwerthfawrogir eich caredigrwydd yn fawr iawn. Diolch o waelod calon.

**Noddfa**

Llongyfarchiadau cynnes i un o aelodau Noddfa sef Beryl Davies ar ei llwyddiant mawr yn ennill y wobr gyntaf am gyfansoddi geiriau emyn ar y testun "Heddwch" yn Eisteddfod Rhys Thomas James Pontrhydfendigaid. Roedd safon y gystadleuaeth yn rhagorol yn ôl y beirniad, neb llai na Jim Parcnest yr Archdderwydd. Derbyniodd Beryl ganmoliaeth uchel iawn a gwobr o ddeugain punt. Yn ail roedd Mary Morgan, Llanrhystud a Dai Rees Davies, Rhydlewis yn y trydydd safle.

Yr ydym yn ymfalchio yn ei llwyddiant unwaith eto yn y maes cyfansoddi ac yn estyn ein dymuniadau gorau iddi i'r dyfodol. Ymlaen yn awr i'r Genedlaethol Beryl.

**Cyngor Tref**

Y mae'r Cyngor Tref wedi ymgymryd â'r Adolygiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg.

Gellir derbyn copi o'r Adolygiad drwy gysylltu â'r Clerc ar 01570 421496 neu clerc@lampeter-tc.gov.uk

**Clwb Castanét**

Mae Clwb Castanét newydd a reolir gan y gymuned, yn bwriadu cynnal digwyddiadau misol yn Neuadd Fictoria, gydag amrywiaeth eang o gerddoriaeth, gan gynnwys jazz, gwerin, y felan a cherddoriaeth fyd. Bydd Cynllun Noson Allan Cyngor Celfyddydau Cymru'n cefnogi'r clwb er mwyn creu rhaglen gyflawn ar gyfer 2012 a fydd yn cynnwys bandiau ac unigolion lleol a chenedlaethol. Y bwriad yw cynnal digwyddiadau cyffrous a fydd yn hygyrch i bobl sy'n byw yn Llambed a'r cylch, a thrwy hyn lleihau'r tanwydd sy'n cael ei ddefnyddio gan helpu pawb i arbed adnoddau a chael hwyl wrth wneud!

**Diolch**

Dymuna Pat Davies, Henardd, ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau, anrhegion, galwadau ffôn a'r ymweliadau a dderbyniodd o ganlyniad i'r llawdriniaeth ar ei phen-glin a dderbyniodd yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar, Mae'r holl garedigrwydd yn cael ei werthfawrogi yn fawr iawn.

# O geiniog i geiniog y try'r arian yn bunt

**gan Beca Russell**



**Beth yw Yswiriant?**

Mae yswiriant yn eich gwarchod rhag digwyddiadau na allwch ragweld. Meddyliwch sut fyddwch yn ymdopi yn ariannol pe bai chi neu'ch partner yn sâl ac yn methu gweithio neu fod tân yn gwneud difrod difrifol i'ch cartref?

Er ein bod ni gyd yn gobeithio na fydd dim byd drwg yn digwydd, mae'n fater i'r unigolyn i benderfynu ac odi hi werth y risg? Falle bod gan nifer ohonoch arian tu cefn pe bai rhywbeth yn mynd o'i le, ond os na mae yswiriant yn gallu fod o gymorth.

**Oes angen yswiriant arnoch chi?**

Mae yna nifer o wahanol fathau o yswiriant a gall fod yn bwnc cymhleth iawn. Mae'n orfodol ar bawb sydd yn berchen ar fodur i yswirio ei gerbyd, mae nifer o fusnesau o dan orfodaeth i gael yswiriant atebolrwydd mewn lle. Mae pob math arall o yswiriant yn opsiynol.

Yn ystod trywydd bywyd mi fydd pobl yn dod ar draws gwahanol fathau o yswiriant. Er enghraifft, pan rydych yn prynu tŷ bydd nifer o fenthycwyr yn mynnu bod yswiriant tŷ mewn lle. Yn ogystal pan rydych yn cychwyn teulu bydd angen ystyried gwarchod incwm y cartref, unrhyw ddyledion, eiddo ac iechyd.

Mae'r fath o yswiriant bydd angen i unrhyw un ystyried yn hollol dibynnu ar y sefyllfa unigol, pe baich yn sengl, yn rhenti tŷ neud yn byw gyda'ch rhieni ag yn ddiddyled gallwch ddadlau fod ddim angen unrhyw yswiriant arnoch.

**Sut mae yswiriant yn gweithio?**

Bydd y swm (Premiwm) yr ydych yn talu am eich yswiriant yn dibynnu ar y manylion rydych yn rhoi i'r cwmni yswiriant, a'r math o risg rydych yn yswirio yn erbyn.

Mae'r cwmnïau yswiriant yn cymryd mewn i ystyriaeth ffactorau megis lle chi'n byw, ydych yn ysmygu, iechyd a beth yn gwmws chi am yswirio er mwyn penderfynu ar y gost.

Mae'r cwmnïau yn cytuno i dalu allan os yw'r digwyddiad rydych yn yswirio yn erbyn yn digwydd, felly mae'n bwysig bod ffeithiau cywir yn cael eu rhoi o'r cychwyn. Gall cwmnïau gwrthod talu allan os nad yw'r ffeithiau cywir wedi rhoi neu fod ffeithiau wedi ei gadael allan o'r cais gwreiddiol.

Mae'n bwysig i chwilio o gwmpas am y polisi gorau, ond nid yw hyn o reidrwydd yn golygu'r polisi rhataf sydd ar gael, mae'n bwysig i gymharu manylion y polisi hefyd.

Cyn prynu yswiriant mae'n bwysig i gadarnhau bod y cwmni rydych yn delio gyda, boed yn gwmni yswiriant neu brocer, wedi ei gofrestru gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (Financial Services Authority).

Yn y Rhifyn nesaf byddwn yn edrych yn fanylach ar yswiriant bywyd a diogelwch teulu.

# Atodiad Arbennig Papur Bro Clonc i Daith y Fflam Olympaidd Mai 2012




Dawn Kenwright o Lanbedr Pont Steffan yn cario'r fflam drwy bentref Llanarth ar Ddydd Sul 27ain Mai



Carwen Richards, Prif Ferch Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan yn dechrau Taith y Fflam o Aberystwyth ar fore Llun 28ain Mai



Llun o Iwan Evans a Meirion Thomas yn llefaru o lwyfan y gyngerdd awyr agored yn Aberystwyth ar y sgrîn fawr tu ôl crochan y fflam




Eric Davies, Cribyn yn marchogaeth cobyn Cymreig Maesmynach Angerdd gyda'r fflam drwy strydoedd Aberaeron ar y 27ain Mai




Caryl Davies o Gwmann yn cario'r fflam drwy Daliesin ar Ddydd Llun 28ain Mai



Maer a Maeres Llanbedr Pont Steffan y Cyng. Kistah a Carol Ramaya - yr unig bâr priod drwy Wledydd Prydain i gario'r fflam, yn trosglwyddo'r fflam o flaen tyrfaoedd Aberteifi



Côr o ddisgyblion ysgolion uwchradd Ceredigion yn canu mewn cyngerdd i groesawu'r Ffagl Olympaidd i Geredigion ar Gaeau'r Ficerdy, Aberystwyth Dydd Sul 27ain Mai. Mae'r côr yn cynnwys disgyblion o Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan.

# Ysgol Campws Llanbedr Pont Steffan

**Ffynnonbedr**



Daeth llwyddiant ysgubol i dri disgybl o'r ysgol yng nghystadleuaeth Trawsgwlad Cenedlaethol yr Urdd. Yn y ras i ferched blwyddyn 6 daeth Grace Page yn bedwerydd a Menna Kime yn chweched ac yn y ras i fechgyn blwyddyn 6 daeth Daniel Willoughby yn ddeuddegfed. Da iawn chi'ch tri.

Diolch yn arbennig i'r Cynghorydd Margaret Davies Evans am gyflwyno tarian yn rhodd i'r ysgol. Rydym yn gwerthfawrogi hyn yn fawr.

Derbyniodd disgyblion blwyddyn 6 hyfforddiant ar dechnegau achub bywyd gan Mr John a Mr Thomas a hefyd bu disgyblion blwyddyn 6 yn treulio diwrnod yn y Sector Uwchradd i'w paratoi gogyfer â mis Medi.

Mae disgyblion blynyddoedd 5 a 6 wedi cael cyfle i gynllunio logo newydd i Ysgol Bro Pedr – edrychwn ymlaen yn eiddgar at gael gweld y logo terfynol. Mae Cyngor Ysgol y campws yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn ddiweddar y prif drafodaethau yw ynglŷn â gwisg ysgol. Mae cyfle wedi bod hefyd i ddisgyblion, staff a rhieni i fynegi barn ar wisg ysgol i Fro Pedr.

Bu tîm rygbi'r ysgol yng nghystadleuaeth Genedlaethol Rygbi'r Urdd a gynhaliwyd yn Llanelli yn ddiweddar ac ennill tair gem allan o bump gan orffen yn ail yn y grŵp. Perfformiad arbennig yn erbyn timau o safon uchel iawn. Da iawn bois.

Cafodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 llawer o hwyl wrth fynychu Chwaraeon Potes yr Urdd yn Ysgol Llanybydder yn ddiweddar. Daeth Cerddorfa'r Sir i berfformio i ddisgyblion blynyddoedd 2 i 6 ac fe wnaeth bawb fwynhau'r raglen amrywiol a gyflwynwyd.

Cafodd disgyblion blynyddoedd 3,4,5 a 6 gyflwyniad ar bwysigrwydd gofalu am ddannedd a chyfle i drafod a gofyn cwestiynau.

Cynhaliwyd noson ryngwladol yn yr ysgol gyda nifer o ddisgyblion yn gwneud cyflwyniadau wledydd ac yn rhannu arferion diwylliant a thraddodiadau o amryw wledydd. Cawsom ddawnsio gwerin o Gymru, blasu bwydwyd Indiaid a Tseinaidd a dawnsio o wlad Groeg. Diolch i bawb a gymerodd ran ac i Mrs Thomas a Mrs Hill am drefnu.

Aeth criw o ddisgyblion i Noson o gemau a gynhaliwyd gan Ysgol Llanllwni. Cafwyd llawer o hwyl a sbri a diolch i Mr Thomas am drefnu ac i'r rheini a gludodd y disgyblion.




Llongyfarchiadau mawr i Rhys Bishop ar gipio'r wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd am ffotograffiaeth ac i Aisvarya Sridar o flwyddyn 4 Bran am ennill y gystadleuaeth rhyddiaith i ddysgwyr ar lefel Genedlaethol hefyd- Ymfalchïwn yn eich llwyddiant. Gwych!

**Yr Ysgol Gyfun**

Yr Adran Gerdd: Cymeradwywn Jonathan Brayley o flwyddyn 11 ac Aleksandr Odell o flwyddyn 8 am godi arian at elusen Cancr Plant Clic Sargent drwy gael eu noddi i ymarfer 20 munud bob dydd am bythefnos. Trefnwyd hyn gan Wasanaeth Gerdd Ceredigion a chodwyd £1,500 drwy'r Sir.



Llongyfarchiadau gwresog i Gwawr Hatcher o 11 Pedr hefyd, sydd wedi cael ei dewis i fod yn aelod o Gôr y 6 Sir yn dilyn clyweliadau yn Aberystwyth. Mae hyn yn dipyn o gamp gan fod yr aelodau wedi cael eu dewis allan o'r consortiwm newydd o Sir Gaerfyrddin, Penfro, Ceredigion, Abertawe, Powys a Chastell Nedd a Phort Talbot. Bydd Gwawr yn mynd ar gwrs ym mis Gorffennaf ac yna'n perfformio fel aelod o'r côr yn yr Haf.

Bu'r aelodau canlynol yn ymarfer yn ddiwyd yn ystod mis Mai yn paratoi ar gyfer cyngerdd y Fflam Olympaidd a fydd yn digwydd ar y 27ain o fis Mai ar gaeau Bryndolau yn Aberystwyth. Bydd 'Kids in Glass Houses' hefyd yn perfformio. Rhian Davies 9D, Elin Hughes 9D, Emma Lewis 9P, Stephanie Davies 9P, Dale Davies 9P, Caryl Jacob 8D, Lleucu Ifans 8D, Morgan Lewis 8D, Teon Rees 8D, Natalie Plant 8N, Rhiannon Jevon 8N. Bydd Iwan Evans 8P a Meirion Thomas 8D yn llefaru.

Ar ddydd Mawrth, Mai'r 8fed, bu'r disgyblion canlynol yn cymryd rhan mewn gweithdy Tseiniaidd yn Neuadd y Celfyddydau yn y Brifysgol yn Llanbed. Cafwyd cyfle hefyd i glywed y cyfansoddwr Qigang Chei yn siarad ac yn perfformio, ac i chwarae rhai o'r offerynnau Tseiniaidd. 10G - Klean Dalton, Abby Flavell, Peter Hurton; 10P – Sulwen Richards; 10D – Delyth Evans, Lowri Jones; 9S – Jack Lloyd, Daniel Simmonds; 9P – Emma Lewis, Aaron Kersey, Dale Davies; 9N Mared Jones, Katie Woodcock, Natalie Woodcock; 9D – Elin Hughes, Elin Evans, Hanna James, Rhian Davies; 9G – Kaleisha Standen. Mae'r gweithdy'n rhan o Ŵyl Gerddoriaeth Bro Morgannwg. Cyn troi yn ôl am yr ysgol, cafwyd cinio blasus iawn yn ffreutur y Brifysgol. Hoffwn ddiolch i'r "Confucius Institute" am dalu am ginio i'r disgyblion. Roedd y gweithdy'n ddiddorol iawn, a chafodd y disgyblion llawer o hwyl yn dysgu am yr offerynnau amrywiol.



Yr Adran Fathamateg: Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am lwyddo i gael tystysgrifau arian ac efydd yn y gystadleuaeth "UK Maths Intermediate Challenge": Ellen Edwards, Ceri Cranfield, Huw Howells, Finn Humphrey, Sophie Hall Jones, Ryan Bennett a Connie Daly. Daliwch ati fathemategwyr y dyfodol!




Llongyfarchiadau mawr hefyd i Caryl Jacob, Chris Barker, Charlie Roper, Reuben Beddoe, Harriet Roper a Myfi Studman, am ennill gwobrau, medalau a thystysgrifau yn Sialens Prifysgol Aberystwyth 2012.

# Ysgol Campws Llanbedr P. S.



Yr adran Gelf: Ar ddydd Mawrth, y 1af o Fai, aeth Miss Wendy Thomas a'i dosbarth Celf UG i Brifysgol Fetropolitan Abertawe, er mwyn cymryd rhan mewn gweithdy gwydr, a'i cynhaliwyd gan gwrs gradd gwydr yr ysgol gelf. Roedd y profiad cafodd disgyblion Ysgol Llanbedr Pont Steffan yn unigryw iawn, ac roedd pawb yn ymfalchïo o'r cyfle i arbrofi â chyfrwng sy'n hollol newydd iddyn nhw. Llwyddodd pob disgybl creu ystod eang o waith yn y maes, bydd hefyd yn cefnogi eu gwaith cwrs celf UG. Dyma Stephanie Jones 12S yn y llun.



Dathliad Cymru a'r Byd: Cafodd dathliad Cymru a'r Byd 2012 ei gynnal ar y 25ain o Ebrill yn Neuadd y Celfyddydau, Llanbedr Pont Steffan. Gwnaeth deg disgybl o flwyddyn 8 gyflwyniad arbennig am ein cysylltiad ag Ysgol St James High yn Mokhotlong, Lesotho. Roedd y disgyblion wedi paratoi dawns draddodiadol o Lesotho, sef dawns 'gumboot'. Cafwyd llawer o hwyl yn y gweithdai rhyngwladol yn ystod y dydd, a derbyniwyd gwobr gan y Cyngor Prydeinig am eu cyflwyniad hefyd.

Yr Adran Saesneg: Trefnwyd gweithdy sgriptio i griw o ddisgyblion CA3 yn ddiweddar. Daeth Annalise Jenaer, ysgrifennydd sgript i amrywiaeth o raglenni CBBC, i'r ysgol er mwyn helpu'r disgyblion cynllunio, ysgrifennu a ffilmio eu sgriptiau.



Prosiect Adroddiad BBC yr Ysgol Gyfun - y chwaraewr rygbi Stephen Jones gyda'r athro Mark Davies a rai o'r disgyblion.



Aelodau Cyngor Eco a Chyngor Ysgol Ffynnonbedr yn y Diwnrod Rhyngwladol a gynhaliwyd yn y Brifysgol yn Llambed yn ddiweddar. Bu'r cyngor y gweneud cyflwyniad ac yn cymryd rhan mewn amryw weithdai yn ystod y dydd. Diolch i Mrs Howard am drefnu.

# O'r Cynghorau Bro



**Cyngor Bro Llanllwni**

Cadeirydd: Emyr Evans/Tom Bowen, Clerc: Eirlys Davies, Gohebydd y Wasg: Dewi Davies, Cynghorydd Sir: Linda Evans. Cyfarfu'r Cyngor ar 14 Mawrth 2012 yn Neuadd Gymundol Llanllwni.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Cyflwynwyd mantolen flynyddol i'r aelodau. Diolchodd y cadeirydd i'r aelodau am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad yn ystod y ddwy flynedd diwethaf a dymunwyd yn dda i'r cadeirydd newydd Tom Bowen. Diolchwyd i'r Cyng Linda Evans am ei gwaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf a hefyd i'r Clerc Eirlys Davies.

Aeth y Cadeirydd newydd i'r gadair a pharau â'r cyfarfod. Etholwyd Tom E Bowen yn gadeirydd a diolchodd y Cadeirydd newydd i Emyr Evans am ei gydweithrediad yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, ac am ei waith o fewn y gymuned dros y blynyddoedd. Etholwyd Eric Davies yn is-gadeirydd am y ddwy flynedd nesaf.

Y Cae Chwarae: Cadarnhawyd bod y maes chwarae â'r adnoddau wedi cael eu harchwilio yn fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones. Yr oedd angen postyn newydd yn y fynedfa. Nododd Tom Jones bod angen peintio'r ffens o amgylch y cae chwarae; gwirfoddolodd i wneud y gwaith

Mapiau Stad Jervoise: Penderfynwyd mynd ymlaen i sicrhau copiau, ond yr oedd un anhawster posibl ynglyn â hawlfraint ar y mapiau.

Tŷ Hers: Mae'r gwaith cyfreithiol wedi ei gwblhau, ac mae'n swyddogol mai'r Cyngor Bro sydd yn berchen ar Tŷ Hers.

Cais am grant dan gynllun Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau: Llythyr i gadarnhau bod y cais cychwynol wedi cael ei dderbyn a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi o ran symud ymlaen i ail gam y broses gwneud cais.

Etholiad Cyngor Cymuned: Cadarnhawyd bod un lle yn wag ar y Cyngor Bro. Bydd Dewi Davies yn llenwi y sedd wag.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 9 Gorffennaf 2012 am 8yh yn Neuadd Gymunedol Llanllwni.

**Cyngor Tref Llambed**

Y Maer: Hag Harriss, Clerc: Eleri Thomas, Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris. Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol ar 11 Mai yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan.

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Maer Offrymwyd gweddi gan Derek Wilson.

Llongyfarchwyd Hag Harris ar ei lwyddiant yn Etholiad 3 Mai.

Llofnododd yr aelodau y datganiad derbyn swydd a'r côd ymddygiad statudol.

Etholwyd Kistiah Ramaya yn Faer y Dref am y flwyddyn 2012-13 a Dorothy Williams yn ddirprwy. Cynhelir gwasanaeth sefydlu'r maer ar 1 Mehefin am 6.30 yn yr Hen Neuadd, Prifysgol y Drindod Dewi Sant.

# Cwmsychpant

**Llwyddiant**

Llongyfarchiadau i Catrin Jones, Talar Wen ar ennill Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod Rhydlewis yn ddiweddar. Pob lwc i ti i'r dyfodol.

**Ymweliad dramor**

Bydd Einir Ryder, Tyngrug Ganol a Chlwb Ffermwyr Ifanc Pontsian yn ymweld â'r Weriniaeth Tsiec yn ystod mis Awst. Pob hwyl ar y daith!!!!

**Llwyddiant Eisteddfodau'r Gwanwyn**

Bu nifer o blant yr ardal yn llwyddiannus iawn yn yr Eisteddfodau ar draws Ceredigion yn ystod y mis diwethaf. Da iawn chi i gyd.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn gyda Lewis ac Eifionwy Davies, Cilmeri a'r teulu oll yn dilyn marwolaeth ei chwaer Mrs Margaret Lloyd o Ddihewyd. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf.

# Clwb Clonc

## Mehefin 2012

£25 rhif 187 :
Mrs Ann Gibby,
Erwlon, Llanybydder.
£20 rhif 466 :
Mrs Joyce Williams,
Pleasnt Hill, Blaencwrt.
£15 rhif 454 :
Mrs Ann Thorne,
Glennydd, Llanllwni.
£10 rhif 455 :
Gwen Walters,
Wernen fach, Maesycrugiau.
£10 rhif 4 :
Jennie Bracher,
Clyndu, Cwmann.
£10 rhif 108 :
Mrs Alice Davies,
Alwyn, Llanwnnen.

# MiS y PaPUr NeWYDD

**Colofn Dylan Iorwerth**

**Fflamio'r fflam**

Hon yw fy fflam fach i, meddai'r Undodiaid. Ond alla' i ddim dweud fy mod yn teimlo hynny am y fflam Olympaidd sydd newydd losgi ei ffordd trwy orllewin Cymru.

Mi all ardal Clonc ddiolch ei bod hi'n un o'r rhai a lwyddodd i osgoi'r randibŵ, efo ffyrdd a strydoedd yn cau, priodasau ac angladdau'n gorfod cael eu haildrefnu ac unrhyw un oedd eisio teithio o'r de i'r gogledd hyd ffordd y glannau yn gorfod mynd y ffordd arall (bell ofnadwy) heibio.

Oedd, chwarae teg, roedd yn ddiwrnod allan yn y tywydd braf ac mae'n siŵr bod lot o bobol wedi mwynhau. Mi fydd cludwyr y fflam hefyd yn gallu brolio wrth eu plant a phlant eu plant eu bod wedi cario'r ffagl ac efallai fod ambell i stondin hufen iâ wedi gwneud ei ffortiwn.

Ond, os arhoswch chi am funud i feddwl be oedd ystyr y digwyddiad, efallai y byddwch yn cytuno ei fod yn wastraff anferth ar arian ac amser. Ac, i ni yn yr ardaloedd yma yng nghefn gwlad Cymru, yn anferth o dwyll hefyd.

Y daith Olympaidd oedd ffordd yr awdurdodau yn Llundain o geisio ein perswadio ni mai Gêmau Gwledydd Prydain oedd y rhain, yn hytrach na gêmau'r ddinas fawr ar lannau Tafwys. Ceisio ydi'r gair priodol.

Yn union fel y bydd y Frenhiniaeth yn cael gweithgareddau gwerinol fel partïon stryd i ddathlu priodasau a jiwbilïau a phethau felly – er mwyn esgus eu bod yn agos at y bobol – mae'r gwledydd i gyd wedi eu cynnwys yn seremoni arwynebol y fflam er mwyn esgus eu bod wedi eu cynnwys yn y Gêmau hefyd.

Ond, o'i gymharu â chynnal rhai o'r campau eu hunain, dydi cael y fraint o gario leitar anferth o le i le ddim llawer o gop. Ac, o ystyried bod y fflam yn teithio trwy gannoedd o lefydd yn ystod y siwrnai i gyd, fydd yna fawr neb o'r tu allan wedi cymryd sylw o Gymru.

Yn anffodus, mae yna lawer gormod o bobol a sefydliadau yn teimlo bod rhaid iddyn nhw gefnogi'r sbloet. O'r gwleidyddion, sy'n ceisio cyfiawnhau eu bod wedi gwneud eu gorau i ddod â rhyw fendithion i Gymru, i'r BBC sy'n colli pob sens o newyddion diduedd ar adegau fel hyn.

Yr addewid oedd y byddai llygaid y byd ar Gymru wrth i'r fflam gyrraedd yma ond, ar ôl sylw'r wythnos gynt i'r cyrraedd cynta' yng Nghernyw, roedd pawb yn dechrau colli diddordeb. A fydd y rhan fwya' o'r ymwelwyr â'r Gêmau eu hunain ddim yn dod yn agos at Gymru.

Dim ond cwpwl o gêmau pêl-droed fydd yng Nghymru, a llond llaw o dimau dinod yn ymarfer ac ychydig iawn o fusnes a gafodd cwmnïau Cymru oherwydd y digwyddiad. Ond ryden ni i gyd wedi cyfrannu ffortiwn at gynnal y Gêmau, trwy drethi ac arian coll i weithgareddau chwaraeon lleol ac achosion da.

Gobeithio'n wir y bydd rhywun o bwys wedi dilyn y fflam wrth iddi deithio trwy Geredigion a sylwi pa mor brin ydi adnoddau chwaraeon gwirioneddol dda yma. Sylwi, er enghraifft, nad oes yna stadiwm athletau o werth ar gyfyl y lle.

A faint o glybiau chwaraeon lleol a allai fod wedi gwneud llawer mwy gyda chyfran fach o'r biliynau sy'n mynd at y Gêmau? A chyfran fach o'r arian a gafodd ei wario ar fugeilio tyrfaoedd a chlirio'r hewlydd ar gyfer taith y fflam.

Yr un wythnos ag yr oedd y leitar yn dod i Gymru, roedd y Western Mail yn ymosod ar y Cynulliad am ystyried gwario £400,000 y flwyddyn ar gyfieithu dogfennau cyhoeddus pwysig i'r Gymraeg. Swm pitw o'i gymharu â'r hyn sydd newydd ddiflannu mewn mwg.

Cyn bo hir, mi fydd yr ardal yma'n siŵr o dderbyn rhai o'r ffoaduriaid economaidd sydd am orfod dianc o Lundain oherwydd prisiau tai a rhenti yn y ddinas fawr. Y rheswm am hynny ydi fod holl economi gwledydd Prydain wedi ei stumio i yrru'r dŵr i bant y Metropolis ... ac mae'r Gêmau Olympaidd yn gwneud hynny'n waeth.

Mae'r cyfan yn dân ar groen.



Rhai o drigolion yr ardal ymhlith y tyrfaoedd yn gwylio'r fflam yn Aberaeron.

# Yn y Gegin gyda Gareth

**Swper, Steil a Speis.**

Y mis yma rwyf am gyflwyno ychydig o wres a blas i'r gegin drwy wneud y mwyaf o flas y sbeis. Faint ohonoch chi, fel fi, sydd a jariau o sbeis yn y cwpwrdd yn cynyddu o fis i fis. Dyma'r casgliad rysetiau perffaith i chi gael defnyddio rhai ohonynt. Mae'r potiau bach yma yn dda i roi ychydig o sbarc i ambell rysait sydd angen gweddnewidiad. Felly beth am fentro ac arbrofi gyda'r casgliad yma.

Pob hwyl yn y gegin,

*Gareth.*

**'Tagine' Cyw iar.** (Rysait lliwgar a iachus, does dim rhaid defnyddio'r chili os ydych am flas mwynach),

**Cynhwysion.**

6 morddwyd cyw iar (Thigh)
1 llond llwy fwrdd o olew
1 winwnsyn wedi'i sleiso
2 ewyn garlleg wedi'u darnio
2 binsed o sinsyr ffres neu ddarn o sinsyr wedi'i gratio
1 daten felys (sweet potato) wedi'i sleiso
Sest a sudd un oren
Un llond llwy de o sinsyr
Un llond llwy de o sinamon
Pinsied o chilli flakes
¾ peint o stoc cyw iar
1 tun o chickpeas



**Dull.**

1. Ffreiwch y cyw iar mewn olew nes ei fod yn euraid. Rhowch naill ochr, a ffreiwch y winwnsyn, garlleg a sinsyr nes yn feddal. Dychwelwch y cyw iar i'r badell ffrio gyda'r daten, oren, speisys a'r s toc. Ychwanegwch bupur a halen a choginiwch am ½ awr.
2. Ychwanegwch y chickpeas, gwresogwch y cyfan a gweinwch gyda reis.

**Trionglau Tortilla.**



**Cynhwysion**

4 tortilla fflwr
4 llond llwy fwrdd o 'guacomole'
2 llond llwy fwrdd o salsa tomato
1 llond llwy de o chilli
150 gram o gaws wedi'i gratio
Ychydig o saws tobasco

**Dull**

1. Rhowch ddwy dortilla ar y bwrdd. Gorchuddiwch â'r guacamole, yna'r salsa. Gwasgarwch y caws, yna ychydig dobasco a'r chilli. Rhowch y ddwy dortilla arall ar ben y ddwy gyntaf a gwasgwch arnynt.
2.Cynheswch y gril, a choginiwch y tortillas nes yn euraid ar y dwy ochr. Torrwch yn drionglau.

**Tuna gyda Salsa Mango**



**Cynhwysion**

4 golwyth tuna

**I'r marinêd.**

3 llond llwy fwrdd o saws soy
2 llond llwy fwrdd o fêl
1 llond llwy de o cumin

**I'r Salsa**

1 mango wedi'i ddarnio
1 chilli coch wedi'i ddarnio
Sest a sudd un leim
2 shalotsyn wedi'u ddarnio

**Dull**

1. Cymysgwch gynhwysion y marinêd, ychwanegwch y tuna a gadewch am 30 munud.
2. Cymysgwch gynhwysion y salsa
3. Coginiwch y tuna am 1 i 2 funud bob ochr. Gweinwch gyda'r salsa a'r salad.

# Pencarreg

**Bant a ni yn y Shara Bang Bang!**



Dydd Mawrth y cyntaf o Fai teithiodd nifer o bobl ardal Pencarreg, ynghyd â ffrindiau sy'n cefnogi'r ymdrech o geisio cael y bws X40 i deithio eto trwy'r pentref, i lawr i'r Senedd yng Nghaerdydd i gyflwyno deiseb ac arni dros 500 o lofnodion. Diolch i Sharon McNamara am gasglu'r llofnodion ac am drefnu cwrdd â Rhodri Glyn Thomas ac eraill i geisio eu darbwyllo mor angenrheidiol yw'r drafnidiaeth yma i'r pentrefwyr, hen ac ifanc yn yr ardal.

Dywedodd Rhodri Glyn Thomas y byddai'n gwneud ei orau drosom ac y byddai'n siarad gyda Chwmni Arriva i geisio ail sefydlu'r drafnidiaeth. Mae aelodau seneddol a chynghorwyr lleol wedi cael eu hethol gan y bobl i wneud eu gorau glas i weithio drostynt. Yr ydym yn ymddiried ynddynt a chawn weld a fyddant yn cadw at eu haddewidion. Mae treigl amser yn beth rhyfedd, heddiw - gall person fod ar frig y rhod ac mae gofidiau a phryderon meidrolion dibwys ein cymdeithas yn golygu dim iddynt ond yfory gall y rhod droi ac efallai yn ôl geiriau Saunders Lewis, Daw dydd y bydd mawr yn rhai bychain. Cawn weld! Amser a ddengys.

**Cymorth Cristnogol**

Mae Ruth Jones, Min y Llyn wedi bod yn brysur yn ddiweddar yn casglu arian tuag at elusen Cymorth Cristnogol. Casglodd £68.00. Mae Ruth dros ei phedwar ugain oed ac nid ar chwarae bach oedd yr ymdrech ynghlwm a sicrhau'r swm yma o arian. Diolch Ruth a dal ati gyda dy waith da.

# Cwrtnewydd

**Gwellhad Buan**

Gobeithio fod Hefin Jenkins, Cathal yn gwella yn dilyn ei lawdriniaeth yn ystod y mis.

**Dyweddïad**

Llongyfarchiadau i Elen Grantham, 2 Yr Hen Ysgol ar ei dyweddiad â Llyr yn ddiweddar.

**Ysgol Cwrtnewydd**

Cychwynnodd mis Mai gyda thrip i bwll nofio 50 medr a thrac rhedeg yn Abertawe i gyd-fynd gyda thema'r tymor sef y Gemau Olympaidd gan fod yr ysgol yn cael ei defnyddio fel Gorsaf Bleidleisio. Cafodd y plant a'r staff agoriad llygaid wrth ymweld â'r pwll nofio anferth. Cafwyd gwybodaeth am yr holl athletwyr enwog sydd yn dod yno yn ddyddiol i ymarfer ar gyfer y Gemau Olympaidd, a cyn gadael buom yn ffodus iawn i weld y pwll yn newid o 50 medr i ddau bwll arwahan. Yn y prynhawn aeth pawb i weld y trac rhedeg. Cynhaliwyd Gemau Olympaidd ein hunain ar y trac ac roedd y plant wedi mwynhau'r profiad o redeg ar y trac. Profiad gwerth chweil!

Croeso cynnes i Anwen James myfyrwraig sydd gyda ni ar hyn o bryd yn gwneud ymarfer dysgu yn y Cyfnod Sylfaen, gobeithio y gwnei di fwynhau yn ein plith.

Bu Helen Edwards o Gynllun Gwên yn ymweld â phlant yr ysgol, treuliwyd amser yn trafod y pwysigrwydd o lanhau dannedd yn rheolaidd.

Ar ddydd Llun gŵyl y banc cynhaliwyd ein gweithgareddau blynyddol Calan Mai. Eleni ein llywyddion oedd Mr Rob Thomas a'r bechgyn. Cyflwynwyd rhodd i Mr Thomas, Rhodri a Llyr gan ddau ddisgybl ieuengaf yr ysgol, sef Megan Davies a Lowri Rees.

Rhedodd nifer fawr o oedolion a phlant yn y rasys amrywiol. Enillwyd tarian y bachgen cyntaf o Ysgol Cwrtnewydd gan Owain Jones a tharian y ferch gyntaf gan Cerys Pollock. Eleni roedd y ras yn dathlu ei phen-blwydd yn 25 mlwydd oed ac i ddathlu'r digwyddiad comisiynwyd llun gan arlunydd ifanc sef Rhiannon Roberts. Cyflwynwyd y llun gwreiddiol i Mr a Mrs Lyn Rees, Tanrhos i ddiolch iddynt am eu holl waith caled wrth drefnu'r ras am y 25 mlynedd diwethaf. Hefyd cyflwynwyd tri phrint i'r tri rhedwr sydd wedi cwblhau'r ras bob blwyddyn ers y cychwyn cyntaf sef Eirian Davies o Lanwrda ac Eric a Dorian Rees, ac i Wendy Davies am ei gwaith diflino i ddiwrnod Calan Mai dros y blynyddoedd.

Cafwyd arwerthiant llwyddiannus yn nwylo medrus Dewi Jones ac fe aeth pawb yn y gymuned eang yn ddwfn iawn i'w pocedi. Tynnwyd y raffl a diolchodd cadeiryddes y Gymdeithas Rieni ac Athrawon, Ann Davies, i bawb am lwyddo i wneud Calan Mai yn llwyddiant ysgubol eleni eto. Braf yw cael cofnodi bod Cymdeithas Rieni ac Athrawon Cwrtnewydd wedi cydweithio yn arbennig o dda i godi swm anhygoel o £5000! Diolch yn fawr iawn i bawb am bob cymorth a chefnogaeth ar y diwrnod.

Bu tri disgybl o'r Cyngor Ysgol yn rhoi cyflwyniad i'r Llywodraethwyr am eu gwaith a chynlluniau dros y flwyddyn a hefyd yn son am y digwyddiadau cyffrous sydd ganddynt i'r dyfodol agos. Bydd y Cyngor Ysgol yn cynnal diwrnod o olchi ceir ar ddydd Gwener, Mehefin 29ain felly mae croeso i chi ddod i'r ysgol i gael eich car wedi golchi am bris rhad! Bydd elw'r diwrnod yn mynd tuag at Ward Plant Cilgerran yn ysbyty Caerfyrddin.

Erbyn hyn mae plant Cyfnod Sylfaen Ysgolion Llanwnnen, Llanwenog a Chwrtnewydd yn ymuno gyda'i gilydd am wersi nofio ac ymarfer corff yn Llanbed. Mae hyn o fudd mawr i'r plant gan eu bod yn cael cyfle i gymdeithasu gyda phlant yr un flwyddyn a hwy.

Bu plant blwyddyn 3, 4, 5 a 6 yn cymryd rhan yn Chwaraeon Potes yr Urdd a gynhaliwyd yn Ysgol Llanybydder. Cafodd y plant llawer iawn o hwyl a sbri yn cystadlu a chymdeithasu.

Erbyn hyn mae yna glwb garddio yn rhedeg yn wythnosol, mae'r plant wrthi yn plannu yn y tŷ gwydr a thu allan.

Braf hefyd yw nodi bod yr ysgol wedi llwyddo i ennill deilen Cam 3 Ysgolion Iach. Ymlaen a ni i'r cam nesaf!

Carpedi
Gwyn Lewis
Cyf
Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel, Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau, Pennau Gwelyau a Rygiau.
43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau
'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'
• Cacennau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
• Bwffe mawr neu fach
• Danteithion i de
• Pwdinau
• Arlwyo ar gyfer pob achlysur
Sirian Davies, Coedlannau Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045

REFLEXOLOGY
Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:
* Blinder / diffyg egni
* Meigryn
* Sciatica
* Irritable Bowel Syndrome
* Menstural problems
* a mwy
Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones
Ffotograffydd
Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-
1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.
Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.
ADVE
ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR
33 Stryd Fawr, Llambed
01570 422517 01570 423244

# Llanybydder

**Côr Lleisiau'r werin**

Yn ymarfer Nos Iau 26ain Ebrill, darllennodd Kay lythyr o ddiolch i'r côr, oddi-wrth Sophie Lane, 'Multiple sclerosis team co-ordinator' o adran y Neuro inflammatory team yn ysbyty Morriston.

Yn y llythr diolchodd Ms Lane i'r côr am y rhodd o £450, arian a godwyd mewn cyngerdd nadoligaidd yn Eglwys Llanybydder mis Rhagfyr y llynedd.

Eglurodd Ms.Lane fyddai'r arian yn mynd tuag at 'continuing education and development of our staff, that is essential with the ever changing developments in Multiple Sclerosis'.

Fel côr, rydym yn falch iawn ein bod ni wedi gallu helpu'r achos yma.

Hefyd yn yr ymarfer yma, rhoddwyd llongyfarchiadau i Alwena a Margaret Evans, am iddynt ennill cystadleuaeth scrabble Merched y Wawr.

Nos Iau 3ydd Mai- oherwydd fod Festri Aberduar yn cael ei defnyddio fel 'polling station', roedd yr ymarfer yma lan yn Ysgol Gynradd Llanybydder. Diolch am gael defnyddio'r ysgol.

Diolch arbennig i Meinir am ddod i agor a chau yr ysgol i ni-gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Llongyfarchiadau i Sioned Glantrenfach am fod yn rhan o dîm buddugol barnu stoc o dan 18aw.

Hefyd llongyfarchiadau i Elin Haf, Gethin Hatcher a Lowri Davies, am iddynt ennill y tarian am y tîm gorau yng nghystadleuaeth siarad cyhoeddus cymraeg cymru o dan 21ain!

Mae gan aelodau o'r côr, blant talentog iawn! Da iawn chi!

Nos Wener, 11eg Mai, gwnaethom fynd i ganu yn Noson goffi, Pwyllgor buddiannau henoed Llanybydder, yn Festri Aberduar.

Hefyd yn perfformio roedd plant Ysgol Gynradd Llanybydder.

Roedd y plant wedi trefnu gyda Elonwy eu bod nhw yn mynd i ymuno gyda ni ar gyfer un can, sef Ffalabalam. Roedd hyn yn sypreis i'r côr pan gwnaeth y plant codi i ymuno yn y gytgan!

Diolchodd Diana Harper i ni ar ran y pwyllgor am ddod i ganu.

Mis diwethaf gwnes i ddweud fod y côr yn paratoi ar gyfer achlysur arbennig iawn, wel, Priodas Catrin a Llew Castell Du, oedd yr achlysur arbennig yma!

Roedd Catrin yn edrych yn lyfli yn ei ffroc a Llew yn smart iawn yn ei siwt!

Braf oedd gweld y ddau yn gadael yr Eglwys yn bar priod hapus iawn, gyda'u teulu o'u cwmpas yn rhannu'r dathlu.

Gwnaeth y côr ymuno yn y dathlu yn y parti nos yng Ngwestyr Grannell, Llanwnen, lle gwnaethom canu rai o hoff ganeuon Catrin a'u theulu.

Llongyfarchiadau mawr i Catrin a Llew, gobeithio cewch chi flynyddoedd llawer o hapusrwydd gyda'ch gilydd!

Nos Iau 17eg Mai, darllenodd Kay lythyr oddi-wrth Mrs Betty Jones, Ysgrifennyddes pwyllgor buddianau henoed Llanybydder, yn diolch i ni am ganu yn ei Noson Goffi wythnos diwethaf.

Dymunwyd penblwydd hapus i Margaret Roberts, sydd yn dathlu penblwydd arbennig iawn penwythos nesa.

Llongyfarchiadau i Dylan, wyr Gwyneth, sydd wedi cael cytundeb 5 mlynedd i chwarae gyda tim rygbi y Scarlets, Llanelli! Mae hyn yn freuddwyd i sut gymaint o fechgyn ifanc, ond mae Dylan wedi cyrraedd y brig! Da iawn ti wir!

Cydymdeimlwyd gyda Margaret Roberts a'i gŵr Ieuan, gan fu farw Mam Ieuan, a oedd yn cartref Alltymynydd, yn ystod yr wythnos yma.

Mwy o hanes y côr mis nesa'!

**Hanes Eglwys Sant Pedr**

Dydd Sul, 29ain Ebrill, gwnaeth sawl car llawn o aeldoau Eglwys Llanybydder, mynd lan i Eglwys Llanwnen i fynychu gwasanaeth y 5ed Sul.

Mae'r gwasanaeth yma yn gyfle i aelodau or 4 Eglwys i ddod at ei gilydd i addoli mewn gwahanol Eglwys bob tro.

Braf oedd gweld fod yr Eglwys yn llawn o aelodau o'r gwahanol Eglwysi.

Roedd pawb yn cytuno fod y gwasanaeth wedi bod yn llwyddiant mawr, ac edrychwn ymlaen i gwasanaeth y 5ed Sul nesaf.

Roedd trydanwyr wedi bod yn gweithio yn yr Eglwys wythnos y 7fed o Fai, ac ar ôl iddynt orffen, daeth criw o aelodau at ei gilydd i glanhau'r Eglwys. Diolch yn fawr iddynt am eu gwaith.

Gwasanaeth y gair mis Mai- roedd y gwasanaeth yma wedi ei trefnu gan Susan a Jean.

Thema y gwasanaeth oedd 'Cariad, Gobaith, Ffydd a Thangnefedd'

Roedd canhwyllau ar bob sil ffenest, gyda un or geiriau uchod ar bob sil.

Cawsom emynau pwrpasol iawn, yn cynnwys 'Make me a channel of your peace' a Cyfrif y Bendithion.

Roedd darlleniadau amrywiol wed'u adrodd gan Eirian, Bethan a Nia. Ac roedd darlleniad Heather, sef 'Dont quit', yn hala ni i feddwl pa mor bwysig yw trial ein gorau bob amser, ac i byth rhoi i fynnu.

Perfformiodd Susan a Jean sgets, lle roedd Susan yn mynd o gwmpas yn diffodd y canhwyllau i gyd, heblaw am y canwyll ar gair



Mair Thomas, Emyr a Rhian Williams yn cyflwyno siec o £900 i Jack Jenkins tuag at gronfa'r tri chwist elusennol a drefnir gan Jack bob gaeaf, arian a roddwyd er cof am ei mam Lena Williams Heol y Gaer. Yn y llun hefyd mae cynrychiolwyr o'r tair elusen sef Jenny Bracher o Gymdeithas Brydeinig y Galon, Mair Evans Diabetes UK Cymru ac Aneurin Davies Ymchwil y Cancr.



Aled Thomas Brynmair a'r ôl iddo agor noson goffi Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder yn ddiweddar. Yn y llun hefyd mae Diana Harper, Betty Jones ac Ogwen Evans. Cafwyd noson lwyddiannus iawn, gyda Festri Aberduar yn orlawn. Bu plant ysgol gynradd Llanybydder yn diddanu'r dorf gyda Elma Jones ac Elonwy Davies wrth y piano. Bu Lleisiau'r Werin hefyd yn ein llonni gyda'u canu egniol dan arweiniad Elonwy Davies gyda Margaret Jones yn cyfeilio. Talwyd y diolchiadau gan Diana Harper. Diolch yn fawr i Aled ac i bawb am eu cefnogaeth.

'Gobaith' ar ei bwys.

Eglurodd Jean, tra fod ganddom ni 'Gobaith', rydym yn gallu ail-gynnu y canhwyllau eraill.

Darllenodd Vicky barddoniaeth or enw 'Hope', a oedd yn egluro yr hyn a oedd yn y sgets.

Gwnaeth y Ficer darllen y darn 'Footprints', darn emosiynol iawn sydd yn son am sut mae Duw yn gofalu amdanynt trwy'r amser, ond ar adegau anodda ein bywyd ni, mae Duw yn ein cario trwy'r cwbwl.

Roedd darlleniad Jean 'Take time', a un llinell arbennig iawn sef: "Take time to love, and to be loved, it is Gods greatest gift".

Gweddiodd Susan, cyn i Jean, Heulwen a Kay, egluro a darllen 'Neges ewyllys da', sef neges sy'n cael ei rhoi allan bob blwyddyn gan ieuenctid ar draws y byd.

Diolch i Susan a Jean am ysgrifennu a threfnu'r gwasanaeth hyfryd yma.

Mae'r blodau yn yr Eglwys wedi cal ei rhoi mis yma er cof am Helen, cyn aelod or Eglwys a farwodd llynedd, ac hefyd gan Ted a Diana Harper, i ddathlu ei Priodas Arian. Llongyfarchiadau iddi'n nhw!

Ar y 7fed o Fai, mynychodd Susan, Warden y bobol, a Kay, Warden y Ficer, 'Gofwy yr Esgod' yn Eglwys Aberaeron. Pwrpas y gwasanaeth yma, oedd ir wardeniaid newydd datgan eu bod nhw yn mynd i gyflawni eu swyddi yn ystod y flwyddyn.

Diolch i aelodau or Eglwys a aeth allan a amlenni Cymorth Cristnogol yr wythnos diwethaf. Roedd yr Eglwys yn gyfrifol am dosbarthu a casglu amlenni o gwmpas hanner gwaelod Llanybydder.

Diolch i bawb a rhoddodd arian ar gyfer yr achos yma.

Dydd Sul nesa, 27ain Mai, rydym fel grwp o Eglwysi, yn mynd ar daith i Dy Ddewi, Edrychwn ymlaen i fod yn y Gadeirlan ar gyfer gwasanaeth arbennig. Cewch glywed yr hanes yn Clonc mis nesa!

**Priodas Aur**

Llongyfarchiadau i Alun ac Ann,

# Llanybydder

Gwarduar sydd yn dathlu eu Priodas Aur ar Fehefin 16eg.

**Priodas Dda**

Ar ddydd Sadwrn, 26ain o Fai priododd Cerys Jones, Gorlan a Gareth Lloyd o Dalgarreg a briododd yng Nghapel Aberduar. Dymuniadau gorau i chi yn eich bywyd priodasol.

**Penblwydd**

Llongyfarchiadau i Rhydian Davies, Maes y Barcud ar ddathlu dy ben-blwydd yn un ar hugain ar Fai 21ain.

**Llwyddiant**

Llongyfarchiadau i Ffion Mai Davies, Rhydybont am ennill y wobr gyntaf yn yr Unawd Bl. 1 a 2 yn Eisteddfod Gadeiriol Llandudoch yn ddiweddar. Cafodd yr ail wobr am lefaru. Derbyniodd hefyd Wobr Her Arbennig Calon Ifanc Llandudoch am y perfformiad llwyfan unigol gorau yn yr holl gystadlaethau hyd at flwyddyn 2.

Llongyfarchiadau hefyd i Sioned Fflur Davies am ennill yr ail wobr yn yr unawd a'r llefaru Bl. 3 a 4.

**Merched y Wawr**

Nos Lun, Ebrill 30ain cawsom noson ddiddorol iawn pan wnaethom ymweld a Felin Ganol Llanrhystud. Cawsom groeso cynnes gan y perchnogion sef Andy ac Ann Parry. Cawsom ein tywys o gwmpas y felin hynafol oedd yn llawn hanes. Melin oelifor oedd yr enw gwreiddiol ac mae wedi bod ar y safle ers 1738 o leiaf. Dŵr o'r afon Wyre cwarter milltir i ffwrdd ond wedi ei arall gyfeirio tuag at y felin sydd yn troi'r rhod ddŵr anferth. Nid oedd y felin wedi malu ers tua hanner canrif ond bellach ers ei hadnewyddu tua dwy flynedd yn ôl mae'n malu unwaith eto. Gwelsom gofnodion yn dangos ffermwyr lleol yn dod a'u gwenith i'w falu yma 100 mlynedd yn ôl. Bydd Ann ac Andy yn prynu rhan helaeth o'r blawd organig o Fferm y Coleg yn Aberystwyth ac yna byddant yn ei falu gyda charreg fawr i wneud blawd cyflawn a blawd gwyn. Cyn gadael gwnaethom fwynhau blasu'r bara menyn a chacen ffrwythau hyfryd oedd wedi eu gwneud o'r blawd arbennig. Diolchodd Ann Milcoy ar ein rhan am y croeso a gawsom ac am ddangos ac esbonio'r broses o gynhyrchu'r blawd. Roedd pawb wedi prynu pecyn o'r blawd i fynd gatre gyda'r bwriad o grasu torth ond hyd yn hyn mae fy mlawd i yn dal i fod yn y pecyn! I gloi'r noson cawsom swper yn y Llew Du, Llanrhystud ac roedd y gwmniaeth yn ddiddan iawn. Enillwyd y raffl gan Megan Jones.

Yn dilyn galwad gan y mudiad i gasglu enwau caeau er mwyn eu diogelu ar gyfer y dyfodol anfonwyd enwau caeau Fferm Blaencarreg gan Audrey Evans ac enwau caeau Fferm Dolgwm Uchaf gan Lynda Thomas ymlaen i'r Swyddfa yn Aberystwyth.

Diolch i Beti Jenkins Davies, Bet Davies, Jean Davies a Beti Jacobs am goginio gwledd o bice ar y maen ar gyfer te prynhawn y Ffair Fai a gynhaliwyd ar y 12fed o Fai yn Llandysul. Diolch i Audrey Evasns a Bet Davies am baratoi a gweini'r te yn y Neuadd.

**Priodi**

Priodas dda i Catrin a Llew, Castell Du, Llanwnnen a briodwyd ar y 12fed o Fai. Pob dymuniad da i ti Catrin oddi wrth dy gydaelodau yma yn Llanybydder.


**HYSBYSEBU YN CLONC**

*"Mae mwy a mwy yn gweld gwerth mewn hysbysebu yn y Papur Bro."*

Amcangyfrifir bod tua 3,000 o bobl yn darllen CLONC.

£10.00 am floc bach.

£40.00 am chwarter tudalen.

£60.00 am flwyddyn o flociau bach.

Cysylltwch ag Ysgrifenyddes CLONC am ragor o wybodaeth: 01570 480015 neu ysgrifennydd@clonc.co.uk


# Bag Papurau Bro

**am ddim** i aelodau newydd Clwb Clonc sy'n talu trwy archeb banc (tra pery'r cyflenwad).



## CEFNOGI CLONC 2012

Y ffordd orau a'r mwyaf ymarferol o gefnogi'ch papur bro yw trwy ymuno â Chlwb CLONC. Rydym yn ddibynnol iawn ar yr incwm. Diolch am gefnogi.

## CLWB CLONC

Byddem yn gwerthfawrogi petaech yn talu drwy archeb banc. Mae'n hawdd. Llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at yr Ysgrifenyddes er mwyn hawlio'ch bag siopa newydd am ddim.

**Archeb Banc yn unig**

At Rheolwr Banc y / Manager of . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Cangen / Branch . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Wedi derbyn yr archeb hon, telwch i FANC NATWEST Llambed 53 61 42 CLWB CLONC 03451526 y swm o £5, £10, £15, £20* NAWR ac yna ar y dydd cyntaf o Orffennaf bob blwyddyn nes y rhybuddiaf chi ymhellach, telwch y swm o £5, £10, £15, £20

Enw llawn / Name . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Cyfeiriad Llawn / Address . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Rhif y cyfrif / Account no . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Dyddiad / Date . . . ./. . ./2012

Arwyddwyd / Signed . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

** Rhowch gylch o amgylch y swm y dymunwch roi**

neu...

os am dalu ag arian parod neu siec, llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at yr ysgrifenyddes cyn diwedd mis Gorffennaf os gwelwch yn dda.

Amgaeaf tâl o £5, £10, £15 neu fwy.

**** Arian / Siec yn daliadwy i 'Glwb Clonc' ****

Enw: . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Cyfeiriad: . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

## Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET

**Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc**

I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 6 | 4 | | | 7 | 1 | |
| | | | | | | | | 4 |
| | | 9 | 1 | 7 | | | | 5 |
| | 9 | | | | 4 | | | |
| | | 4 | 6 | | 5 | 8 | | |
| | | | 7 | | | | 3 | |
| 3 | | | | 2 | 1 | 9 | | |
| 1 | | | | | | | | |
| | 8 | 7 | | | 6 | 2 | | |

**Atebion Swdocw mis Mai:**

Llongyfarchiadau i Avril Williams, Y Fedw, Cwmann; a diolch i bawb arall am gystadlu: Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder; Shirley Walker, Heol-y-Gaer, Llanybydder; Eirlys Davies, Eurfann, Llanybydder; Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder a Glenys Davies, Gellir Aur, Llanbydder.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | 8 | 2 | 6 | 3 | 7 | 1 | 4 | 9 |
| 9 | 6 | 3 | 1 | 2 | 4 | 5 | 8 | 7 |
| 4 | 1 | 7 | 5 | 8 | 9 | 2 | 3 | 6 |
| 8 | 2 | 4 | 3 | 9 | 1 | 7 | 6 | 5 |
| 6 | 3 | 1 | 7 | 4 | 5 | 9 | 2 | 8 |
| 7 | 5 | 9 | 8 | 6 | 2 | 3 | 1 | 4 |
| 2 | 4 | 6 | 9 | 7 | 3 | 8 | 5 | 1 |
| 1 | 7 | 8 | 2 | 5 | 6 | 4 | 9 | 3 |
| 3 | 9 | 5 | 4 | 1 | 8 | 6 | 7 | 2 |

# Cellan

**Priodas Rhuddem**
Llongyfarchiadau i Gerwyn a Francis Jones, Maesyderi ar ddathlu ei Priodas Ruddem ar y 10fed o Fai. Dymuniadau gorau i chwi eto am nifer fawr o flynyddoedd.

**Priodas**
Llongyfarchiadau i Eleri, merch Berian a Beverley y Fishers, a Rhydian ar ei priodas ar y 5ed o Fai. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu. Dymuniadau gorau i chi eich dau a phob lwc i'r dyfodol.

**Cartref Newydd**
Mae Rhys a Rhian Williams wedi symyd i fewn i'r hen du deuluol, sef fferm Bayliau yn dilyn gwaith adeiladu. Blynnyddoedd o iechyd a hapusrwydd i chwi eich dau yn eich cartref newydd.

**Electiwn Sir**
Llongyfarchiadau i Odwyn Davies ar gadw ei sedd yn yr electiwn ar Mai y 5ed, a phob lwc i chi dros y blynyddoedd nesaf yn cynrhychiolu ein ardal.

**Jiwbili Ddeimwnt**
Mi fydd te parti i ddathlu y Jiwbili Ddeimwnt yn cael ei chynnal yn Neuadd y Milenniwm ar ddydd Llun y 4ydd o Fehefin, o 3 tan 5 o'r gloch y p'nawn. Mi fydd y WI yng ngofal y lluniaeth a bydd llawer o weithgareddau i'ch diddoni. Croeso cynnes i bawb, a dewch a'ch teuluoedd a ffrindiau efoch.

**Cinio Blynyddol**
Cynhaliwyd cinio blynyddol y Cyngor Plwyf yn y Dafodil, Penrhiwllan. Cawsom fwyd bendigedig ac amser da.

**Sinema**
Mae sinema Cellan yn dangos ffilmiau poblogaidd a diweddar, ac yn cael ei gynnal yn y Neuadd Fileniwm ar y sgrin 10 troedfedd. Ffilmiau mis Mehefin: Mehefin y 15fed: The Artist (15); Mehefin y 29ain: The Woman in Black (12).
Croeso i bawb, mae'r ffilmiau yn dechrau am 7:45yh, a drysau yn agor am 7:15yh, cofiwch ddod yn gynnar i sicrhau eich sedd. Mae popcorn, losin, pop ag hufen ia ar gael i'w mwynhau.

**Ysbyty**
Dymuniadau gorau am wellhad buan i Simon Edwards, Awelteifi yn dilyn ei lawdriniaeth yn ysbyty Glangwili.

# Alltyblaca

**Llwyddiant Cerddorol**
Llongyfarchiadau i Cerys Lewis, 1 Bro Teifi am basio Gradd 2 gydag anrhydedd ar y piano o dan nawdd y 'London College of Music.' Cafodd Cerys farciau llawn yn y theori.

# Llanwnnen

**Pwyllgor Lles**
Bydd trip blynyddol yn mynd ar ddydd Mercher, Mehefin 20fed i Sain Ffagan. [Os bydd y tywydd yn anffafriol byddwn yn mynd i Mc Arthur Glen]. Bydd y bws yn gadael Llambed am 8:15y.b. a Llanwnnen am 8:30y.b. Enwau i Haydn Richards 480279, Gwen Davies, 481152 neu Ann Hughes 422654. Croeso cynnes i bawb.

**Sefydliad y Merched**
Croesawodd Avril Jones, y Llywydd, Mrs Joan Jones, Llanbed i'n cyfarfod mis Ebrill. Mae Joan yn arbenigwraig â gwaith llaw, yn enwedig brodwaith o bob math. Cychwynnodd ei diddordeb wedi ymaelodi â'r W.I. a Merched y Wawr a'r diddordeb hwnnw wedi cynyddu wrth gystadlu gyda'r ddau fudiad ac yn y sioeau lleol a chenedlaethol. Syfrdanwyd pawb o weld yr amrywiaeth o waith graenus a oedd ganddi a'r sampler o englyn gan Dic Jones yn drysor gwerthfawr, tybiwn i. Diolchwyd yn gynnes i Joan gan Irene Jackson ac enillwyd cystadleuaeth y mis gan Alice Davies.
Ym mis Mai aeth yr aelodau ar eu trip blynyddol. Tŷ Te yng Nghenarth oedd yr arhosiad cyntaf a phawb yn mwynhau eu hunain dros baned a chacen cyn ymweld â'r Ganolfan Gwryglau eto yng Nghenarth. Cafwyd hanes y cwrwgl o'i ddyddiau cynnar filoedd o flynyddoedd yn ôl hyd at y presennol. Roedd yno gasgliad o'r mathau a ddefnyddiwyd mewn gwahanol wledydd, ond cwrwgl y Teifi oedd ein diddordeb pennaf ni. O Genarth yn ôl am Gastell Newydd Emlyn ac aros ger Sgwâr y Castell i weld y fainc a osodwyd y llynedd i gofio am Helen Thomas, merch ifanc o'r dref a gollodd ei bywyd mewn damwain arswydus tra ar wylnos ger Comin Greenham. Mae gan deulu Helen gysylltiad agos iawn â Llanwnnen a Chapel y Groes. Cafwyd golwg hefyd ar y plac a osodwyd i gofnodi cyfraniad bechgyn Parc Nest i'r Eisteddfod yng Nghymru. Soniodd Ceinwen dipyn am hanes y castell a hefyd y wiber wrth y fynedfa. Gorffennwyd y daith â phryd o fwyd blasus yn Nhafarn Ffostrasol. Diolchodd Avril i Mary a Ceinwen am drefnu trip llwyddiannus eleni eto.

**Pen-blwydd Priodas**
Llongyfarchiadau i Roy a Ceinwen Roach, 5 Bro Llan ar ddathlu eu priodas Ruddem ar 20 Mai. Ymlaen yn awr am yr aur.

**Llwyddiant**
Llongyfarchiadau i Aled Wyn Thomas, 1 Sycamore Terrace ar ei lwyddiant yn rhan o Gôr Only Boys Aloud wedi iddynt lwyddo i gipio'r trydydd safle yn rownd derfynol y rhaglen deledu Britain's Got Talent a hynny am ganu yn y Gymraeg. Da iawn wir.

**Priodas Dda**
Estynnir dymuniadau gorau i Llew a Catrin, Castell Du ar eu priodas yn Eglwys St Lucia, Llanwnnen ar y 12fed o Fai. Pob hapusrwydd i'r dyfodol.

# Pentrebach

**Priodas**
Dymuniadau gorau i Rhydian Williams, Derwen Deg ac i Eleri Wilkins,ar achlysur ei priodas yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i'r dyfodol.


**Penblwydd Arbennig**
Penblwydd Hapus i Mr Gwyn Jones, Undergrove ar ddathlu ei benblwydd yn 80 yn ddiweddar.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Eric Jones Pant-têg, a'i deulu o golli ei frawd yng nghyfraith yn ddiweddar, ac i Malcolm Davies, Glanyrafon o golli ewythr, sef Mr Eifion Price o Aberteifi.

# Llanllwni

**Eglwys Sant Luc, Llanllwni**
Mae'r Wyl Gorawl eleni yn cael ei chynnal yn Eglwys Sant Luc,ar Fehefin 10ed. Bydd gwasanaeth y plant am 2.30 a'r Hwyrol Weddi am 6 o'r gloch.
Cafwyd yr ymarfer cynta yn Llanllwni,ac mae'r ymarferion eraill bob nos Fawrth yn Eglwys Llanbed.
Bydd te ar gael yn y Neuadd Gymunedol rhwng y ddau wasanaeth.
Edrychwn ymlaen hefyd i Wibdaith Eglwysi'r Grwp i Dyddewi ar Fai'r 27ain,sy wedi ei threfnu gan y Parch.Suzie Bale.


YSWIRIANT FUW
Yswiriant Fferm, Busnesau, Ceir a Thai
Arbenigedd lleol
Polisïau at bopeth
Prisiau cystadleuol
FUW UNDEB AMAETHWYR CYMRU
Dewch i drafod eich anghenion gyda
Alan Jacob 07968 371823 / 01570 481361
neu
Gwion James 07980 608337 / 01570 480623
Yn swyddfa Yswiriant FUW, Sgwar y Mart, Llanybydder

Mwnci ffwnci

Brodweithio a Phrintio Dillad.
Darparu Dillad Gwaith a Hamdden.
Sioned Green a Mared Jones
Nantgwyn, Heol Llanfair Llambed
01570 423135
07811917799 / 07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

Gwersi Piano
gan athrawes brofiadol

Cysyllter ag
**Ann Bowen Morgan**
01570 422413

DAI MECANIC
Arbenigwr mewn:
• Gwasanaethu a thrwsio beiciau ATV
• Cynnal a chadw cyfarpar pŵer
DAI JONES
07791 840 500

Cefn Hafod Gorsgoch
Cwrw Da Cwmni Da
01570 434238 07767 676348
Clwb Cyri
Bob nos Wener 6.30-8.30yh
£5 am gyri o'ch dewis, reis, sglodion a bara naan
Take Away neu bwyta mewn
Cwis
Nos Iau cyntaf bob mis
8 o'r gloch
Bwyd yn rhan o'r noson
Timau: dim mwy na 6

# Llanllwni

**C.Ff.I. Llanllwni**

Anodd credu bod blwyddyn arall wedi mynd heibio ac ar ddydd Sadwrn 5ed o Fai cynhaliwyd Rali blynyddol C.Ff.I Sir Gâr ar Faes y Sioe Nantyci, Caerfyrddin. Cafwyd diwrnod prysur iawn efo'r aelodau i gyd yn cystadlu mewn amryw o gystadleuthau. Llwyddiant a gawsom yn yr adran gwaith coed gan i'r clwb gipio y wobr gyntaf yn yr adran Iau a Hyn. Sialens yr adran Iau oedd creu anrheg priodas ac llongyfarchiadau i Daniel Joynson a Rhian Davies am ddod i'r brig. Gwneud 'Wedding Arch' oedd y dasg yn yr adran Hyn a llongyfarchiadau i Carwyn Lewis a Sam Joynson am cipio'r wobr gyntaf. Da iawn i Anwen Jones ac Ifor Jones am ddod yn ail yn y barnu moch. Thema yr arddangosfa ffederasiwn eleni oedd 'Honeymoon Suite' lle cipiod Meryl Davies, Daniel Joynson, Sioned Howells a Sioned Bowen yr ail safle. Betsan Jones a Hefin Jones fuodd yn coginio 'canapes' lle ddaethant yn drydydd. Ar ddiwedd y dydd hyfryd oedd clywed bod y clwb yn eistedd yn y pedwerydd safle allan o 18 o glybiau. Llongyfarchiadau i bawb!



Cynhaliwyd ein cinio blynyddol eleni yng Ngholeg y Drindod Dewi Sant Llambed ar Nos Wener 11eg o Fai. Braf oedd gweld llu o aelodau, rhienu a chefnogwyr yn cymdeithasu a dathlu llwyddiant y flwyddyn. Ein gwestai gwadd am y noson oedd Mr Dylan Jones, Cadeirydd C.Ff.I. Cymru. Ifor Jones cafodd ei ethol fel aelod y flwyddyn am 2011-2012. Llongyfarchiadau i ti!

**Ysgol Llanllwni**

Aeth plant yr Adran Iau i Gemau Potes yr Urdd, Cylch Llanbed yn Ysgol Llanybydder, brynhawn Mai 14eg gan gael llawer o hwyl. Diolch i Ysgol Llanybydder am y croeso.

Treuliodd disgyblion blwyddyn 6 ddiwrnod arall yn Ysgol Gyfun Llanbed gan wneud gwahanol weithgareddau. Byddant yn hen gyfarwydd â'r ysgol erbyn mis Medi!

Cynhaliwyd Noson o Gemau Decathlon llwyddiannus yn Sied Clynmelyn nos Iau, Mai 17eg. Diolch i ysgolion Ffynnonbedr, Llanwnnen a Ysgol Y Dderi am ein cefnogi. Ysgol Y Dderi enillodd y tariannau a chafodd pob cystadleuwr dystysgrif. Diolch i bawb a gyfrannodd a helpu wrth y gemau, y barbiciw, raffl a'r stondin boteli ac i bawb a ddaeth i gefnogi.

Rydym yn bwriadu codi arian i'r ysgol drwy gynllun 'Bag2School'. Os oes gennych ddillad (plant ac oedolion), dillad gwely, parau o esgidiau, teganau meddal, hetiau neu fagiau nad ydych angen gallwch ofyn i'r ysgol am fagiau glas arbennig i'w rhoi ynddo. Gallwn storio'r bagiau yn yr ysgol neu gallwch ddod â nhw i'r ysgol ar Orffennaf 11eg am 9.00y.b. pan fydd y lori yn dod i'w casglu. Byddwn yn ddiolchgar iawn am pob bag!

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Mai:- £10.00 – 151 – Emrys Evans, Llanerch, Maesycrugiau, Pencader. £5.00 – 217 – Chris Glasson, Frondeg, Llanllwni. £2.50 – 160 – Sion Davies, 13 Bro Rhydybont, Rhydybont, Llanybydder. £2.50 – 23 – Doris Jones, Glyntelor, Gwyddgrug. £2.50 – 68 – G. Morgan, Glasfryn, New Inn.



Ar noson y gyngerdd, Sinead Evans, Mared Harries ac Alwena Owen yn cyflwyno anrhegion i lywydd y gyngerdd sef Mr Ifan Davies a'i ferch Miss Eirlys Davies.

**Diwrnod Hwyl**


Mae yna groeso i chi ddod i ymuno yn yr hwyl a'r sbri yng Nghae Glanafon (tu cefn i'r Belle Vue) a'r y 16ain o Fehefin 2012. Bydd y diwrnod yn cychwyn am 11.30 ac yn gorffen gyda gêm o rownderi tua 4yh. Bydd Sali Mali yn cyrraedd am 12 i ddarllen storiau a chael cân gyda'r plant yng nghwmni Gwenda Owen yn ogystal a Sali Mali bydd Sam Tân yn galw draw tua 1 pan fydd yna arddangosfa tractorau 'Vintage' o 1 hyd 1.30. Yn y babell cewch gael tro ar ganu'r Delyn yn ngwmni Telynau Teifi am 1.30 neu cael tro ar drymiau Affricanaidd gyda Emmanuel am 2pm..– felly dewch draw mae yna rhywbeth ar gael i'r teulu oll.. Yn ogystal ar gweithgareddau yma fydd yna hefyd Castell Bownsio, Twba Lwcus, lluniaeth ysgafn a gwahanol stondinau yn cynnwys cacennau a chyfle i gael eich gwyneb wedi peintio. Llywyddion y dydd yw Ken a Janet Howells Gwarallt. Rhennir elw'r dirwnod rhwng Ysgol Feithrin Llanllwni ac Ysgol Gynradd Eglwys Llanllwni.

**Undeb Y Mamau, Sant Luc**

Doedd dim cyfarfod fis Mai,ond aethom ar ein taith flynyddol ar y 16eg.Yn gynta cawsom ginio bendigedig yng Nghwmcerrig, ar bwys Cross Hands,ac wedyn cyfle i werthfawrogi'r holl fwydydd ffres sy ar werth yn y siop.Nesa buom yng Nghanolfan Garddio Swiss Valley,a mwynhau gweld eu cynnyrch. Gorffenwyd y daith yn Llanelli. Yn wir buom yn lwcus iawn fod wedi dewis diwrnod sych a heulog,yng nghanol dyddiau o gawodydd.

Diolch yn fawr i Marion am ein cludo'n ddiogel ym mws y Gymuned.

Bydd y gangen yn cwrdd nesa ym mis Medi.



ADGOFION AM LLANLLWNI.

—:o:—

DAW troion y gorphenol
Yn fynych i fy ngho';
A chofion am Llanllwni
A ddeuant yn eu tro :
Es yno o Lanstephan
Yn hogyn nwyfus, iach,
Gan weithio am ddwy flynedd
Yn Ffactri Wernenfach.

Dibrofiad hollol oeddwn
Pryd hyn o ddrygau'r byd,
Am lawer gwers a ddysgais
Mi gefais dalu'n ddrud ;
Yr oeddwn i fel llawer
Cyn cyrhaedd ugain o'd
Yn credu mod i'n gwybod
Y cwbl sydd yn bod.

Ond heddyw 'rwyf yn synu,
Wrth daflu trem yn ol,
Fy mod i yn ddianaf
Ar ol rhai troion ffol :
Mi gredaf i Ragluniacth
Gyfryngu ar fy rhan
Pan oeddwn yn Llanllwni,
Fel gwnacth mewn llawer man.

Fe groesais afon Teifi
Yn aml yn y nos,
Heb gwch na phont i ngharío
Ond myn'd dan swmp yn gro's.

Pan oeddwn i yn saethu
Bwledi yn y Bryn
Y dryll a hyll ymholltodd
Gan fwled oedd rhy dyn.

Mi gofiaf byth o'r potshian
A fu ar dir Talardd,
'Doedd yno fawr wningod
Pan es o'r ardal hardd ;
A chipiwyd llawer cog
O ddyfroedd Ceilog dlos,
Ac hefyd nant yr Henfa's
Yn Nhachwedd ar hyd nos.

Wrth ddyfod o garwriaeth
Un boreu o Waunfawr,
'Roedd troedfedd llawn o eira
Yn gorwedd ar y llawr ;
Ac er mwyn ffoi yn ddirgel
Ymadael wnaethym i
Yn ddistaw trwy y buarth
A ngwyneb at y ty.

Ces lawer orig ddifyr
A Neli yn Belle Vue,
A llawer stori ddigri'
Adroddodd yn fy nhlyw :
'Roedd Neli'n hoff o fygu
A'i thraed o gylch y tân,
Ac yn dyfrio Jaci
O hyd yn gyson glan.

'Roedd Jaci'n gorfod gwneuthur
Gwaith lodes yn y cefn—
Yn crafu yr holl dato,
A chadw'r lle mewn trefn :
Mae Jaci erbyn heddyw
Mewn purach byd yn byw,
A chartref yn fwy cydnaws
A'i natur yn Belle Vue.

Ces lawer i anogaeth
Rymusol ar y Sul,
O bwlpud Capel Noni
I rodio'r 'llwybr cul :'
Ac hefyd ar lan Teifi
Mewn cyssegredig fan.
Fe glywais gân a moliant
Yn esgyn tua'r lan.

Gwell ardal na Llanllwni
Ni cheir o fewn y wlad
Caredig a lletygar
Yw ei thrigolion mad ;
Ond llawer a adwaenwn
Ni welir yno mwy ;
Yn mynwent Aberduar
Y maent, neu gladdfa'r plwy'.

Daeth y penillion hyn i law gan Mrs Greta Walters, Y Graig Llanfihangel-ar-arth.

Tybed a yw un o ddarllenwyr 'Clonc' yn gwybod rhywbeth amdanynt.

# Cornel y Plant

I blant dan 8 oed



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.


Annwyl Ffrindiau,

Helo blant, sut ydych chi? Wel wrth i mi ysgrifennu'r llythyr yma atoch mae'r haul yn gwenu'n braf arnaf ac rwyf wrth fy modd yn bola heulo yn yr ardd. Digon o hufen ia a sudd oren oer. O dyma'r bywyd i grwban fel fi!

Wel mi wnaeth nifer ohonoch chi blant fynd ati i liwio llun Twm fy ffrind yn ymarfer ei neidio mis diwethaf. Da iawn chi gyd. Roeddwn yn hoff iawn o luniau Ellie Lona Gorman o Benparcau a Sophie o Gwmann. Ond llun mwyaf lliwgar y mis yma yw un Jamie Jones, 10 Heol y Maes, Pencarreg. Llongyfarchiadau mawr i ti Jamie!


Ddoe mi fues yn brysur iawn yn torri'r borfa ac mi welais Ffred y ffermwr drws nesaf yn codi silwair. Mae'r ffermwyr i gyd yn brysur iawn erbyn hyn yn torri a charto silwair yn y tywydd braf yma. Llun o Ffred y ffermwr sydd gen i i liwio i chi y mis hwn. Ewch ati bawb!

Ta ta tan toc.




Jamie Jones


Enillydd y mis!



Enw: Oed:

Cyfeiriad:

# Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne




**Tyllgoed**

Mae'r elfennau yn yr enw hwn yn ddigon syml a chyfarwydd sef 'twll' a 'coed'. Ond mae Tyllgoed yn enw sy'n anodd ei egluro'n gwbl foddhaol ar hyn o bryd. Ceir Nant Tyllgoed (1505) yng Nghaerdydd a'r enw hwnnw o bosibl yn dynodi nant sy'n tyllu neu'n torri trwy't tir. Mae'r enw hwn wedi ei gymharu â nant o'r enw Tyllbrys ger Llanymynech ac mae'n bosibil mai ystyr yr enw ar y nant honno yw 'nant yn tyllu trwy brysgwydd' neu 'nant yn llifo trwy ganol prysgwydd y mae rhai ohonynt wedi eu difa'. Petai'r ystyr hon yn ddichonadwy yr elfennau fyddai 'twll' a 'prys(g)'.

Yr enw Saesneg diweddarach a roed ar Tyllgoed (Caerdydd) yw Fairwater.

Ceid Tyllgoed (1760) ym mhlwyf Llangrannog. Mae'r enw wedi diflannu erbyn hyn, ac nid yw'n ymddangos ei fod yn cyfeirio at na nant nac afon.

Damcaniaeth arall yw fod Tyllgoed yn cyfeirio at arfer o dorri twll trwy goeden er mwyn creu nythfan hwylus i wenyn gwyllt. Mae amryw gyfeiriadau o sawl gwlad ar draws Ewrop at dyllu coeden ar ei sefyll, neu foncyff, i wneud pethau'n hwylus i wenyn ymgartrefu yno. Tybed a yw enwau fel Cefn Melgoed (1599), Cefn Melgoed-bach (1558) yn Llanychaearn, Ceredigion a Cefn Melgoed yn Llangathen Sir Gaerfyrddin yn coffáu'r arfer hwn.

Yn Sir Gaerfyrddin ceir, yn ogystal, Tyllgoed uchaf, Tyllgoed isaf ym mhlwyf Llanarthne a Ffynnon Dyllgoed ger Llyn Llech Owain. Mae Tyllgoed hefyd yn Llan-soe yng Ngwent.

Awgrym arall sydd wedi ei ystyried yw fod Tyllgoed yn dynodi 'coed mewn pant'. Yr anhawster mawr gyda'r dehongliad hwn yw na ddigwydd 'twll' yn yr ystyr 'pant'.

Cockshead

Enw arall sy'n gysylltiedig a choedwigoedd yw 'cocsut'; mae'n enw sy'n digwydd mewn sawl ardal yng Nghymru mewn amrywiol ffurfiau. Wrth hela cyfflogiaid byddai'r adar yn cael eu gyrru at agoriad neu lannerch yn y coed a'u dal mewn rhwydi wedi eu hestyn ar draws yr agoriad; dyna, mewn un frawddeg fer, hanfod y 'cocsut'. A digwydd yr enw yn fynych ar enwau caeau yn ymyl coed.

Mae 'cocsut' yn enw sydd wedi ei fenthyg o'r Saesneg 'cockshyt' amrywiad ar 'cockshoot' ac mae'r arfer o rwydo'r cyffylog yn cael ei adlewyrchu mewn hen enwau lleoedd, er enghraifft: Cocsed neu Cockshead (1684) ger Silian yng Ngheredigion; Llwyn y cocsut (1441) yn Sir Ddinbych; Llwyn y cocsyth (1625) ger Llanidloes yn Sir Drefaldwyn; the Cockshed yn Ninas Powys; Cockesyeat (1584) ger Arberth yn Sir Benfro; Cockshoot yn Llanfihangel Rhos-y-corn, Sir Gaerfyrddin

Cyn cau'r drafodaeth ar 'cocsut', fe gofiwn fod Bwlch y Rhyd Felen (1684) yn hen enw arall ar Cockshead ger Silian yng Ngheredigion.

Ar 6 Hydref eleni cynhelir cynhadledd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yng Nghaerdydd. Cynhelir y gynhadledd yn swyddfa newydd Archifdy Morgannwg yn Lecwydd ac mae lle yno i 100. Felly y cyntaf i'r felin...Cewch ragor o fanylion y tro nesaf.

Clwb Hoci Llanybydder
yn cynnal **Taith Cerdded/dribble Noddedig**
i ddilyn gyda BBQ a Noson Rasus Llygoed
**Ar 30ain o Fehefin Yng Nghlwb Rygbi Llambed**
6 o'r gloch ymlaen. Croeso Cynnes i bawb
Am fwy o fanylion neu os hoffwch noddi'r merched ar ei daith noddedig cysylltwch â Beca ar 07967 956 394.

**Tŷ Fferm 3 ystafell wely i'w rhentu**
11 milltir o Aberaeron, 2 filltir o Lambed
Ar yr Heol A482. Dim Cŵn
**Cysyllter â 470348**

# Gŵyl Gerddorol Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant 2012




**2 Mehefin**

## Cyngerdd Operatig Mawreddog Agoriadol

**gyda myfyrwyr Academi Llais Ryngwladol Cymru**
**7.30pm** - Capel y Brifysgol (Campws Caerfyrddin)

**4 - 7 Mehefin**

## The Servants' Pirates (based on Gilbert & Sullivan's The Pirates of Penzance)

**3.00pm** & **7.30pm** - Tŷ Newton, Parc a Chastell Dinefwr
Swyddfa Docynnau : 01558 824512
Mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ym Mharc a Chastell Dinefwr

**8 Mehefin**

## Cyngerdd Cerddoriaeth Sanctaidd

**Côr Caerfyrddin • Côr Dewi Sant**
**gyda myfyrwyr Academi Llais Ryngwladol Cymru**
**7.30pm** - Eglwys Crist, Caerfyrddin

**10 Mehefin**

## Cyngerdd Cerddorfa Siambr Llambed

**3.00pm** - Yr Hen Neuadd (Campws Llambed)

**10 Mehefin**

## Cyngerdd Band Chwyth Caerfyrddin

**7.30pm** - Theatr Halliwell, (Campws Caerfyrddin)

**14 Mehefin**

## Datganiad ar yr Organ - James Gough

**1.00pm** - Eglwys San Pedr, Caerfyrddin
Mewn cydweithrediad â Chelfyddydau Caerfyrddin

**16 Mehefin**

## Llŷr Williams

**7.30pm** - Capel y Brifysgol (Campws Caerfyrddin)

**17 Mehefin**

## Tri Tenor Cymru

**7.30pm** - Neuadd y Celfyddydau (Campws Llambed)

**20 Mehefin**

## Pedwarawd Llinynnol Mavron

**7.30pm** - Capel y Brifysgol (Campws Caerfyrddin)

**24 Mehefin**

## Gwobr Llais Ryngwladol Stuart Burrows

**7.30pm** - Capel y Brifysgol (Campws Caerfyrddin)

**am fwy o wybodaeth:**

**01267 676806** Campws Caerfyrddin
**01570 424704** Campws Llambed

**neu archebwch ar-lein: http://www.ticketsource.co.uk/tsd**

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David
coracle
Cysylltu Creadigrwydd
Connecting Creativity
Ceangailt na Cruthaíochta
Southern & Eastern Regional Assembly
Ireland Wales 2007 – 2013
European Regional Development Fund

# Rali C.Ff.I. Sir Câr


Arddangosfa Ffederasiwn - Daniel Joynson, Sioned Howells, Sioned Bowen a Meryl Davies Clwb Llanllwni - ail.



Ffug briodas - Carwyn Lewis, Sian Elin, Aled Bowen, Aled Thomas a Sioned Russell Clwb Cwmann - Pedwerydd.


Gwisgo Arweinydd - Tomos Jones, Wyn Jones a Daniel Harrison Clwb Cwmann - ail.


Louise Jones, Clwb Cwmann yn traddodi araith y Llysgenhades.


Gwaith Coed Hŷn - Carwyn Lewis a Sam Joynson Clwb Llanllwni - cyntaf.


Gwallt ac ewinedd - Aled Bowen a Gwenann Jones Clwb Cwmann - trydydd.



Gwaith Coed Iau - Daniel Joynson a Rhian Davies Clwb Llanllwni - cyntaf.


Rhydian Thomas, Sian Elin Williams, Carwyn Lewis a Tomos Jones Clwb Cwmann.



Coginio Canapés - Manon Williams a Morgan Lewis Clwb Cwmann - ail.


Coginio Canapés - Betsan Jones a Hefin Jones Clwb Llanllwni - trydydd.